Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Capasiti Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru: Canfyddiadau Darparwyr a Dysgwyr



## Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 021/2008
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2008

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

# Capasiti Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru: Canfyddiadau Darparwyr a Dysgwyr

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Darparwyr, Ymarferwyr a Gwneuthurwyr Polisi Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru. |
| **Trosolwg** | Adolygiad o lenyddiaeth a thrafodaethau wedyn gyda 25 o ddarparwyr/ymarferwyr sgiliau sylfaenol ac arolwg o 200 o ddysgwyr ledled Cymru. Yr amcanion oedd casglu gwybodaeth am safbwyntiau darparwyr ac ymarferwyr ynghylch yr heriau wrth geisio gwella capasiti sgiliau sylfaenol yng Nghymru a'r goblygiadau allweddol o ran polisi ac arferion yng Nghymru, ynghyd â nodi a thrafod unrhyw argymhellion. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim - er gwybodaeth. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylech anfon unrhyw gwestiynau am y gwerthusiad at:<br>Jackie McDonald<br>Y Tîm Ymchwil a Gwerthuso<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Tŷ'r Afon<br>Bedwas<br>Caerffili, CF83 8WT<br>Ffôn: 01443 663807<br>E-bost: Research2@wales.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir cael copïau ychwanegol yn y cyfeiriad uchod.<br>Gellir cael y ddogfen hon hefyd o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:<br>http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=cy |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Mae'r Adroddiad o Gymal Un ar gael ichi. Holwch Jackie McDonald. Mae ei manylion uchod. |

ISBN 978 0 7504 4747 8
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2008
D1010809

# CAPASITI SGILIAU SYLFAENOL YNG NGHYMRU: CANFYDDIADAU DARPARWYR A DYSGWYR

**Adroddiad i**

**Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Medi 2007**

**Philip Roe**
**(BMG Research)**

# CYNNWYS


**1. Cyflwyniad .......... 1**

**2. Safbwyntiau darparwyr .......... 5**
Cyflwyniad .......... 5
Y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol gan y sampl o ddarparwyr .......... 6
Staff a chymwysterau .......... 9
A oes diffyg yn y capasiti addysgu sgiliau sylfaenol? .......... 10
Y rhesymau dros gyfyngiadau mewn capasiti .......... 14
Effeithiau cyfyngiadau mewn capasiti .......... 21
Gwella'r sefyllfa gapasiti .......... 22
Adnoddau datblygu mewnol .......... 23
Hyfforddiant cyffredinol i athrawon .......... 23
'Ymgorffori' gydag athrawon galwedigaethol .......... 23
Mentora athrawon sgiliau sylfaenol newydd .......... 23
'Cronfa gyflenwi' .......... 24
Gwella'r ddarpariaeth hyfforddiant .......... 24
Cefnogaeth gan reolwyr a chraffter ariannol .......... 24
Materion ariannu .......... 25
Cymhlethdod trefniadaethol, partneriaeth a rhannu gwybodaeth .......... 26
Crynodeb: safbwyntiau darparwyr allweddol ar ddatblygu capasiti sgiliau sylfaenol .......... 27

**3. Canfyddiadau dysgwyr o gyrsiau sgiliau sylfaenol .......... 28**
Cyflwyniad: proses yr arolwg .......... 28
Cyrsiau a ddilynwyd .......... 29
Rhesymau dros fynd ar y cwrs .......... 30
Anhawster wrth ddod o hyd i gwrs .......... 31
Oedi wrth ddechrau'r cwrs .......... 32
Maint y dosbarthiadau a chysondeb o ran yr athrawon .......... 33
Canfyddiadau dysgwyr o ansawdd y cwrs .......... 34
Cwblhau .......... 37
Ennill cymwysterau .......... 39
Manteision cymryd rhan .......... 40
Pwyntiau allweddol: arolwg o ddysgwyr .......... 42

**4. Trafodaeth .......... 44**

**ATODIAD 1: Arweiniad ar y drafodaeth gyda darparwyr .......... 47**

**ATODIAD 2: Holiadur Dysgwyr Sgiliau Sylfaenol .......... 49**

# 1. Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru, *'Geiriau'n Galw - Rhifau'n Cyfri'*, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2005, gan osod ymagwedd pum mlynedd i godi safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Strwythurir y Strategaeth yn ôl deg grŵp blaenoriaeth, a deg 'thema llorweddol', sy'n diffinio'r buddiolwyr arfaethedig a phrif feysydd ymyrraeth y Strategaeth.

2. Y grwpiau blaenoriaeth yw:

   1. Blynyddoedd cynnar a'r Cyfnod Sylfaen
   2. Disgyblion yn tangyflawni mewn ysgolion
   3. Teuluoedd
   4. Pobl ifanc
   5. Oedolion sy'n ddysgwyr
   6. Pobl â sgiliau isel yn y gweithlu
   7. Y rhai sy'n ceisio gwaith
   8. Troseddwyr a chyn-droseddwyr
   9. Grwpiau eraill mewn perygl o eithrio cymdeithasol
   10. Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)

3. Y 'themâu llorweddol' yw:

   1. Codi ymwybyddiaeth
   2. Nodi anghenion dysgwyr a thracio cynnydd yn well
   3. Darparu ystod well o ddysgu deniadol
   4. Gwella ansawdd y ddarpariaeth
   5. Datblygu'r gweithlu ymarferwyr
   6. Cymwysterau addas at y diben
   7. Gwell cymorth a chefnogaeth i ddysgwyr
   8. Yr iaith Gymraeg
   9. Cydweithio i fwyafu'r effaith
   10. Gwell tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio

4. Cyflwynir y Strategaeth yng Nghymru gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ASS) sydd wedi'i chontractio i wneud hynny hyd at 2008. Mae'r ASS yn cyhoeddi Cynllun Cyflwyno blynyddol, sy'n nodi'r gweithgareddau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn honno i gefnogi'r Strategaeth ac mae'r gweithgareddau'n cael eu cyflwyno gan yr ASS, Awdurdodau Lleol ac isgontractwyr a benodwyd. Sefydlwyd Prosiectau Cefnogi Cenedlaethol (PCC) i gefnogi llawer o feysydd gweithgarwch. Roedd cyllideb gyflwyno o £12.8m ar gael i gyflwyno Sgiliau Sylfaenol yn 2006-07.

5. Wrth gwrs, gofyniad sylfaenol ar gyfer llwyddiant y Strategaeth yw y dylid cael digon o gapasiti i gyflwyno swm a lefelau'r hyfforddiant sy'n ofynnol yn ôl y Cynllun Cyflwyno - gyda chapasiti yn y cyd-destun hwn yn golygu bod digon o athrawon sgiliau sylfaenol ar gael (â'r lefelau angenrheidiol o brofiad a sgiliau) i gynhyrchu nifer yr oriau dysgu mewn llythrennedd, rhifedd ac ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) sy'n ofynnol gan y Strategaeth.

6. Fodd bynnag, awgrymodd cyfnod cyntaf ymchwil a gomisiynwyd gan AADGOS y gallai'r capasiti i gyflwyno elfennau o'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol a gyfeiriwyd at oedolion fod yn annigonol. Archwiliodd adroddiad (*Rapid Evidence Assessment of current practice in addressing capacity and workforce development issues in basic skills provision*, LE Cymru i AADGOS, Chwefror 2007) y dystiolaeth oedd ar gael ar gapasiti sgiliau sylfaenol a'i ddatblygiad, gan ddefnyddio gwybodaeth a data o Gymru, y DU a thu hwnt.

7. Nododd yr adroddiad, gan ddyfynnu Estyn (yr arolygiaeth ddysgu i Gymru), *'in general, most providers are able to recruit basic skills teachers with suitable experience, though often they do not have specific basic skills teaching qualifications at Level 3 or above. There is, however, a particular shortage of experienced and qualified numeracy teachers, even though numeracy enrolments from students remain relatively low. There are also shortages of experienced and qualified family learning tutors in North West and in South East Wales. Retention of staff is …. a problem, particularly where there are several providers in an area competing for the same pool of staff.'*

8. Awgrymodd yr adroddiad bod prinderau mewn capasiti yn codi am amrywiol resymau o ganlyniad i:

   - Anawsterau wrth farnu faint o gapasiti sydd ei angen: diffyg gwybodaeth strategol ar y galw am gapasiti dysgu, a'r cyflenwad ohono.
   - Statws canfyddedig isel addysgu sgiliau sylfaenol o'i gymharu â dysgu arbenigeddau pynciau eraill.
   - Cyfran uchel yr athrawon sgiliau sylfaenol sy'n gweithio ar gontractau rhan amser, tymor byr.
   - Cyflog isel mewn AB o'i gymharu â dysgu mewn ysgolion.
   - Problemau dilynol mewn cadw staff, yn enwedig pan ceir sawl darparwr mewn ardal yn cystadlu am yr un gronfa o staff.
   - Mynediad gwael neu gyfyngedig i hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol i athrawon sgiliau sylfaenol.

9. Disgrifiodd yr adroddiad nifer o ymagweddau a ddefnyddiwyd i geisio codi capasiti addysgu sgiliau sylfaenol, nid o reidrwydd yng Nghymru, ond mewn rhai achosion, yn y DU neu mewn gwledydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

   - Ymdrechion i ddatblygu strwythur proffesiynol ar gyfer addysgu sgiliau sylfaenol sy'n cynnwys llwybrau clir ar gyfer datblygiad proffesiynol, gyda chymwysterau sy'n mapio ar fframwaith cymwysterau cenedlaethol.
   - Rhaglenni marchnata i ddenu recriwtiaid newydd i addysgu sgiliau sylfaenol, targedu athrawon presennol neu'r rhai sydd wedi ymddeol, ac egluro strwythurau a chyfleoedd gyrfa sgiliau sylfaenol.
   - Bwrsarïau i dalu cost hyfforddiant cychwynnol neu ddatblygiad proffesiynol parhaus.
   - Cymhorthdal i ddarparwyr fel iawndal pan fydd athrawon sgiliau sylfaenol yn cymryd amser i ffwrdd i hyfforddi.
   - Rhaglenni mentora a lleoliadau i athrawon sgiliau sylfaenol newydd i'w helpu drwy gyfnodau cynnar eu hyfforddiant.

- Ymdrechion i sefydlogi cyllid ar gyfer hyfforddiant athrawon sgiliau sylfaenol er mwyn lleiafu ansicrwydd cyllid dros dro.

10. Fodd bynnag, comisiynwyd awduron yr adroddiad, fel y nodwyd uchod, i edrych ar ddeunydd a gyhoeddwyd eisoes fel sylfaen eu dadansoddiad. Yn amlwg, byddai peth o hyn o reidrwydd wedi dyddio ac nid oedd y cwbl yn berthnasol i Gymru. Er mwyn gweld realiti'r sefyllfa o fewn y dadansoddiad cychwynnol hwn ac i gael mwy o fanylion, comisiynwyd ail gyfnod o ymchwil sy'n archwilio'r sefyllfa ymarferol ar hyn o bryd.

11. Nod cyffredinol yr ail gyfnod ymchwil hwn oedd:

*'Cywain ymatebion gan ddarparwyr, ymarferwyr a dysgwyr sgiliau sylfaenol sy'n ymwneud â'r ymchwil a wnaed ar fynd i'r afael â materion capasiti yn y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol'.*

12. Er mwyn cyfrannu at y nod hwn, nodwyd yr amcanion ar gyfer yr astudiaeth fel a ganlyn:

- Nodi meysydd allweddol o arfer da a nodwyd gan yr adroddiad Asesiad Tystiolaeth Cyflym (REA), mewn trafodaeth â staff polisi yn AADGOS.
- Casglu gwybodaeth ar farn darparwyr ac ymarferwyr ar yr enghreifftiau o arfer da.
- Casglu gwybodaeth ar farn darparwyr ac ymarferwyr ar yr heriau sydd ynghlwm wrth wella'r capasiti sgiliau sylfaenol yng Nghymru.
- Casglu adborth ar y goblygiadau allweddol ar gyfer polisi ac arfer yng Nghymru a nodwyd yn ystod y REA.
- Casglu gwybodaeth am brofiad dysgwyr o faterion capasiti a sut maent yn effeithio ar gynnydd dysgu.
- Nodi a thrafod unrhyw argymhellion a dderbyniodd gefnogaeth neu feirniadaeth benodol gan gyfranogwyr.
- Casglu barn ar unrhyw faterion logistaidd/gweithredol sydd ynghlwm wrth weithredu unrhyw rai o'r argymhellion.

13. Mae'r ymchwil yr adroddir arno yng ngweddill yr adroddiad hwn yn mynd i'r afael â nod ac amcanion yr astudiaeth. Roedd dwy brif elfen ymarferol i'r ymchwil:

- Trafodaethau gyda 25 o ddarparwyr/ymarferwyr sgiliau sylfaenol. Ymgymerwyd â'r rhain yn bennaf wyneb yn wyneb â'r person neu'r bobl oedd yn bennaf gyfrifol am gyflwyno sgiliau sylfaenol mewn ystod o ddarparwyr Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a'r sector gwirfoddol ar draws pedwar rhanbarth Cymru.
- Arolwg o 200 o ddysgwyr, eto o ar draws Cymru, a oedd wedi ymgymryd yn ddiweddar â chwrs sgiliau sylfaenol naill ai ochr yn ochr â chwrs arall neu fel rhan ohono neu fel addysg sgiliau sylfaenol annibynnol.

14. Adroddir canlyniadau'r ymchwil isod mewn tair Pennod arall o'r adroddiad:

- Mae Pennod 2 yn adrodd canfyddiadau o'r cyfweliadau manwl â darparwyr.
- Mae Pennod 3 yn adrodd canfyddiadau o'r arolwg o ddysgwyr.
- Mae Pennod 4 yn llunio casgliadau o ddau linyn yr ymchwil ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y dyfodol.

# 2. Safbwyntiau darparwyr

### Cyflwyniad

15. Cynhaliwyd cyfweliadau ag ymatebwyr o bum sefydliad ar hugain ar draws Cymru. Roedd y sefydliadau yn cynnwys Colegau Addysg Bellach, darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, a mudiadau sector gwirfoddol. Fe'i detholwyd o restri o sefydliadau o'r fath yng Nghymru a roddwyd i'r contractwr ymchwil gan AADGOS. I arwain y dethol, lluniwyd ffrâm samplo oedd yn adlewyrchu'n fras ddosbarthiad sefydliadau o'r fath yn ôl eu math (AB, DSW neu fudiad gwirfoddol) o fewn pedwar rhanbarth Cymru. Cysylltwyd â sefydliadau er mwyn ceisio 'poblogi'r' ffrâm samplo gydag achosion priodol. Ni chafwyd unrhyw wrthodiadau pendant i gymryd rhan ond roedd rhai sefydliadau yn methu a chymryd rhan o fewn yr amserlen ar gyfer yr astudiaeth. Roedd y sefydliadau a gafodd gyfweliad yn y pen draw wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

**Tabl 1: Dosbarthiad y rhai gafodd eu cyfweld**

| | D.Dd Cymru | D.Orll. Cymru | Canolb. Cymru | Gogledd Cymru | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Coleg AB | 5 | 4 | 1 | 4 | **14** |
| Darparwr DSW | 4 | 3 | 1 | 0 | **8** |
| Mudiad gwirfoddol | 0 | 1 | 0 | 2 | **3** |
| **Cyfanswm** | **9** | **8** | **2** | **6** | **25** |

16. Cynhaliwyd y cyfweliadau yn eiddo'r sefydliadau oedd yn ymateb. Yr ymatebwyr o Golegau AB fel arfer oedd y Rheolwyr Dysgu Gydol Oes neu Gydlynwyr Sgiliau Sylfaenol y Coleg, ac weithiau byddai eu dirprwyon yn bresennol gyda hwy. Yn y darparwyr DSW a mudiadau gwirfoddol, roedd gan yr ymatebydd deitl mwy cyffredinol fel arfer (fel 'Rheolwr Canolfan Hyfforddiant' neu 'Gyfarwyddwr Gweithrediadau') oedd yn adlewyrchu rôl oedd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i drefnu addysgu sgiliau sylfaenol.

17. Cyn cynnal y cyfweliadau anfonwyd e-bost at yr ymatebwyr yn disgrifio'r meysydd yr oedd disgwyl eu cwmpasu yn y cyfweliad er mwyn rhoi cyfle iddynt feddwl ymlaen llaw am y mater 'capasiti'. Arweiniwyd y cyfweliadau eu hunain gan arweiniad trafodaeth (atodwyd) oedd yn cynnig strwythur i'r trafodaethau yn ôl rhai prif themâu:

- Beth oedd y sefydliad yn ei gyflwyno o safbwynt dysgu sgiliau sylfaenol.
- Pwy oeddent yn eu cyflogi i reoli ac ymgymryd â'u darpariaeth sgiliau sylfaenol.
- I ba raddau yr oeddent yn dioddef problemau neu anawsterau capasiti.
- Pa effeithiau oedd anawsterau o'r fath yn eu cael ar y sefydliad ac ar ddysgwyr.
- Yr hyn yn eu barn hwy oedd y rhesymau dros yr anawsterau.
- Pa ddatrysiadau oeddent yn teimlo y byddai'n debygol o wella'r cyflenwad o gapasiti addysgu sgiliau sylfaenol yn y tymor canolig a'r tymor hwy.

18. Nodwyd y pwyntiau a wnaed gan ymatebwyr, a phan oedd yr ymatebydd yn fodlon ar hynny, recordiwyd y cyfweliadau gyda recordydd sain a chawsant eu trawsgrifio yn ddiweddarach. Mae'r dadansoddiad sy'n dilyn yn seiliedig ar y nodiadau a'r trawsgrifiadau hyn. Nodir nad yw ymchwil 'ansoddol' o'r math hwn yn cyflwyno, nac ychwaith y disgwylir iddo gyflwyno amcangyfrifon rhifol sy'n arwyddocaol yn ystadegol mewn perthynas â'r ffenomen gymdeithasol (yn yr achos hwn, y cwestiwn o gapasiti sgiliau sylfaenol) y mae'n ei harchwilio. Yn hytrach, mae'n sicrhau ei fod yn cwmpasu'r meysydd perthnasol yn nhermau ymatebwyr (sef, ehangder mathau a lleoliadau'r ymatebwyr a nodwyd yn Nhabl 1) ac yn nhermau'r meysydd diddordeb (sef yr arweiniad trafodaeth). Wrth wneud hynny, gobeithir bod disgrifiad teg o'r mater capasiti sgiliau sylfaenol yn ymddangos, fel y canfyddir ef gan ddarparwyr, ac y bydd y disgrifiad hwn yn ddefnyddiol wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol mewn perthynas â'r mater hwn.

**Y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol gan y sampl o ddarparwyr**

19. Gofynnwyd i bob darparwr ddisgrifio eu 'cynnig' sgiliau sylfaenol'. Sylw cyntaf ac elfennol yw mai ychydig iawn yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn y gellir ei ystyried yn safonol ar draws sefydliadau sy'n ymddangos yn debyg.

20. Mewn *Colegau Addysg Bellach* arsylwyd ystod o fathau o ddarpariaeth:

- Darperir peth darpariaeth sgiliau sylfaenol, mwyafrif o'r cyfanswm, ar gyfer 'cynulleidfa gaeth' y rhai 16-18 oed a myfyrwyr 19+ sy'n oedolion sy'n mynychu'r Coleg er mwyn dilyn cyrsiau galwedigaethol neu academaidd o ryw fath. Caiff myfyrwyr eu hasesu'n arferol yn ystod cyfweliad cychwynnol neu wrth gael eu cyflwyno. Rhoddir gwersi sgiliau sylfaenol i'r rhai â sgiliau sylfaenol gwael - fel 'cefnogaeth ddysgu' annibynnol, ynghyd â'r ddarpariaeth Sgiliau Allweddol, neu fel addysgu sydd wedi'i 'ymgorffori' yn y cwrs(cyrsiau) sylfaenol y maent yn eu dilyn.
- Darperir peth darpariaeth sgiliau sylfaenol i oedolion naill ai yn eiddo'r Coleg (fel, dyweder, dosbarthiadau nos) neu fel 'allgymorth' mewn cyfleuster cymunedol. Hysbysebir y ddarpariaeth hon mewn papurau newydd lleol, ar hysbysfyrddau, gyda thaflenni ac ati. Caiff ei disgrifio a'i chyflwyno mewn ffyrdd amrywiol ac weithiau fe'i cysylltir â mathau eraill o ddysgu (yn nodweddiadol mewn sgiliau TGCh) er mwyn gwneud i'r peth edrych yn fwy deniadol a lleihau'r stigma canfyddedig o orfod gwella sgiliau darllen ac ysgrifennu.
- Cyflwynir peth darpariaeth sgiliau sylfaenol fel rhan o becyn i grwpiau lleol yn y gymuned, efallai yn ymwneud â materion iechyd neu ddiddordeb arbennig, ac weithiau'n gysylltiedig â gweithgareddau Cymunedau'n Gyntaf.
- Cyflwynir peth darpariaeth sgiliau sylfaenol fel Dysgu i Deuluoedd lle mae (gan amlaf) mamau â phlant ifanc yn ymgysylltu â datblygu sgiliau sylfaenol ar y cyd, yn aml â'r cymhelliad y bydd yr oedolyn yn gallu darllen yn well i'w blant/phlant a helpu gyda'u sgiliau darllen.
- Cyfunir peth dysgu sgiliau sylfaenol â dysgu Sgiliau Allweddol a'i gyflwyno o dan faner 'sgiliau hanfodol'.
- Mae hyfforddiant ESOL, yn bennaf ar gyfer gweithwyr mudol yn cael ei ystyried (yn ddigon amlwg, o ystyried nifer y

gweithwyr mudol) yn faes twf ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n ei ddarparu.

- Mae peth darpariaeth yn cynnwys hyfforddi cyflogeion yn y gweithle, fel arfer o ganlyniad i'r cyflogwr yn cofrestru ar gyfer Addewid y Cyflogwr (ymrwymiad gan gyflogwyr i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau sylfaenol yn eu gweithluoedd).

- Mae peth darpariaeth o ganlyniad i gysylltiadau 'am i lawr' i mewn i ysgolion, sef bod colegau yn darparu cefnogaeth ddysgu ar gyfer sgiliau sylfaenol i ddisgyblion ysgol lle mae gan y Coleg gytundeb eisoes i gyflwyno dysgu galwedigaethol fel rhan o weithgarwch 14-19 integredig.

21. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae gwahanol golegau yn mabwysiadu'r fwydlen amgylchiadau hon ar gyfer cyflwyno hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn amrywiol iawn – gydag amrywiad yn nifer y mathau o ddarpariaeth a fabwysiadwyd ac i ba ddyfnder yr eir gyda'r mathau a fabwysiadwyd.

22. Y canlyniad yw bod graddfa gyffredinol y ddarpariaeth hefyd yn eithaf amrywiol rhwng colegau mewn ffyrdd nad ydynt yn cael eu hesbonio yn ôl maint y Coleg neu ei dalgylch yn unig. Roedd gan y Coleg â rhan fwyaf y ddarpariaeth (o'r rhai gafodd gyfweliad) ddigon o weithgarwch i gyflogi tîm o dros 70 o bobl oedd yn ymwneud â chyflwyno sgiliau sylfaenol, tua 10 gwaith lefel gyflogi y Colegau oedd yn llai gweithgar ym maes sgiliau sylfaenol. Roedd y ffactorau yr ymddengys eu bod yn rheoli'r amrywiad hwn fel a ganlyn:

- Rhagweithioldeb, neu fel arall yr unigolion sy'n gyfrifol am faes sgiliau sylfaenol mewn gwahanol sefydliadau.

- Yn benodol, eu gallu wrth ddeall argaeledd cyllid ar gyfer gwahanol ffurfiau ar ddarpariaeth sgiliau sylfaenol a'u parodrwydd i geisio ehangu a thwf pan fydd cyllid o'r fath wedi'i gyfyngu gam amser heb sicrwydd y bydd yn parhau.

- Y graddau y caiff darpariaeth sgiliau sylfaenol ei werthfawrogi o fewn y sefydliad ar lefel reoli ac fel gweithgarwch wedi'i ymgorffori yn addysgu a hyfforddi arfer Coleg AB. Mae'r holl sefydliadau yn ystyried yn ffurfiol bod sgiliau sylfaenol yn fater craidd ond awgrymodd rai ymatebwyr, mewn arfer, bod darpariaeth sgiliau sylfaenol yn destun cyfyngiadau a thoriadau os oedd cyllidebau'r Coleg yn dynn a/neu os oedd amheuon am ddichonoldeb masnachol y ddarpariaeth.

23. Trafodir mater capasiti yn fanylach mewn adrannau diweddarach yr adroddiad hwn, ond ar y pwynt hwn *nid* oes awgrym bod yr amrywiadau yn lefelau gweithgarwch rhwng colegau AB wedi'u hachosi'n bennaf gan wahanol argaeledd athrawon sgiliau sylfaenol mewn gwahanol leoliadau colegau. Yn hytrach, ymddengys bod Colegau oedd ag ymagwedd ragweithiol iawn tuag at ddarpariaeth sgiliau sylfaenol hefyd ag ymagwedd ragweithiol iawn tuag at recriwtio a datblygu athrawon oedd yn tueddu i oresgyn pa bynnag gyfyngiadau lleol mewn capasiti oedd yn digwydd bodoli.

24. Mae gan ddarparwyr *Dysgu Seiliedig ar Waith* wrth gwrs rôl gulach na Cholegau. Maent yn sefydliadau masnachol fel arfer ag arbenigedd mewn nifer cyfyngedig o feysydd cwricwlwm. At hynny, mae eu repertoire o ddulliau o ddarparu sgiliau sylfaenol yn sylweddol fwy cul. Yn yr un modd â gyda Cholegau AB, mae'r darparwyr hyn yn asesu eu dysgwyr ar gam cynnar. Yna rhoddir i'r rheiny (weithiau mwyafrif y dysgwyr) â sgiliau sylfaenol lefel isel gefnogaeth ddysgu a dysgwr ochr yn ochr ag addysgu a hyfforddiant arall yn eu prif faes datblygu sgiliau. Yn yr un modd â

Cholegau, mae peth o'r gwaith sgiliau sylfaenol hwn yn addysgu 'annibynnol', tra bod eraill wedi'u 'hymgorffori' fel rhan o'r cwrs sylfaenol. Mae darparwyr DSW yn tueddu i ddisgrifio eu darpariaeth sgiliau sylfaenol fel 'RoRo' (Roll-on, Roll-off) yn yr ystyr nad oes ganddo nifer penodol yn dod i mewn ond ei fod yn cael ei gyflwyno'n barhaus gyda gwahanol ddysgwyr ar wahanol gyfnodau gydol y flwyddyn.

25. Mewn dau achos, adroddodd darparwyr DSW nad oedd cyllid ffurfiol ganddynt ar gyfer addysgu sgiliau sylfaenol. Yn yr achosion hyn, aseswyd hyfforddeion a reolwyd neu a addysgwyd ar gyrsiau eraill ar gyfer llythrennedd a rhifedd wrth gyrraedd ac wrth ymadael. Rhwng y cyfnodau hynny, fodd bynnag, cyflenwyd addysgu sgiliau sylfaenol mewn un achos 'am ddim', yn rhannol fel cyfrifoldeb cymdeithasol gan y sefydliad dan sylw ac yn rhannol i alluogi unigolion i ennill NVC y byddent fel arall wedi ei gael yn anodd. Yn yr achos hwn, roedd y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol ar raddfa fach iawn. Yn yr ail achos, roedd y sefydliad, er nad oedd yn cyflwyno unrhyw ddarpariaeth sgiliau sylfaenol nac yn cael ei dalu i'w chyflwyno chwaith yn cyflwyno'r modiwlau sgiliau allweddol mewn cyfathrebu a chymhwyso rhif ac adroddwyd bod y rhain yn cynhyrchu gwelliant cyn ac ar ôl sylweddol yn yr asesiad sgiliau sylfaenol wrth ymadael.

26. Yn y *sector gwirfoddol*, gwelwyd amrywiaeth debyg (hyd yn oed o fewn nifer bach iawn o enghreifftiau). Ar un pegwn, mae'r mudiad gwirfoddol gafodd gyfweliad yn cyflenwi swm sylweddol o ddarpariaeth uniongyrchol ar gontractau ffurfiol gan ddefnyddio ei dîm ei hun o staff llawn amser. Ar y pegwn arall, nid oes gan y mudiad ei athrawon addysgu sgiliau sylfaenol ei hun ond mae'n prynu athro sgiliau sylfaenol i mewn o'r coleg lleol er mwyn cynnig swm cyfyngedig o addysgu sgiliau sylfaenol fel rhan o'r modiwl 'dychwelyd i ddysgu' yn ei bortffolio o gyfleoedd dysgu anffurfiol a ffurfiol.

27. Yn gryno, felly, o fewn ac ar draws y tri math o ddarparwr gafodd eu cyfweld yn ystod yr astudiaeth, cafwyd amrywiad mawr iawn yn y ffyrdd yr oedd addysgu sgiliau sylfaenol yn cael ei gyflwyno ac yng ngraddfeydd y cyflenwi. Mewn rhai sefydliadau Addysg Bellach, gallai swyddogaeth sgiliau sylfaenol/dysgu gydol oes weithgar iawn a gefnogwyd yn dda gan reolwyr y sefydliad geisio cyllid a dysgwyr a datblygu patrwm darpariaeth cymhleth. Mewn sefydliadau AB eraill, gellid cymryd barn fwy minimalaidd gan ganolbwyntio ar gwrdd ag anghenion sgiliau sylfaenol a chefnogi dysgu myfyrwyr craidd y Coleg ond gyda llai o uchelgais i ddatblygu marchnadoedd newydd y tu allan i'r Coleg. I gyfateb i hynny, gallai rhai darparwyr DSW a mudiadau gwirfoddol geisio cyllid sgiliau sylfaenol a chyflwyno'n uniongyrchol niferoedd sylweddol o allbynnau sgiliau sylfaenol yn weithgar tra y gallai eraill gyflwyno addysgu sgiliau sylfaenol heb ei ariannu, yn ôl eu barn hwy, ac ar raddfa fach ac anffurfiol iawn er mwyn cynorthwyo hyfforddeion tuag at lwyddiant yn eu cyrsiau 'prif-ffrwd'.

28. Nodwedd arall darpariaeth sgiliau sylfaenol, yn enwedig pan y'i cyflenwyd yn y gymuned, yw bod angen ei deilwra'n benodol i grwpiau dysgwyr ac unigolion penodol. Gwnaed yn glir gan lawer o'r ymatebwyr bod y dysgwyr yn 'rhydd i adael' - os nad oedd y profiadau dysgu yn cwrdd â'u hanghenion a'u disgwyliadau roeddent yn dod a'u cyfranogiad i ben - ac ni all sgiliau sylfaenol, mewn rhai sefyllfaoedd, gael ei gynnig yn llwyddiannus fel ffurf 'mae'n rhaid i chi wneud hyn' ar ddysgu. Yn hytrach, yr ymagwedd, o fewn grŵp cymunedol, yw 'dywedwch wrthym beth ydych yn ei ddymuno ac fe fyddwn yn eich helpu'. Mae hyn o reidrwydd yn cyflwyno elfen bellach ar amrywiad yn y patrwm o gyflwyno sgiliau sylfaenol.

29. Gallai'r disgrifiad o'r dulliau o ddarpariaeth ymddangos yn ddisgrifiadol yn unig. Fodd bynnag, gallai fod nifer o negeseuon pwysig ynghlwm wrtho:

- Y gyntaf yw, fel y nodwyd yn gynharach, ei fod yn ymddangos yn annhebygol mai gallu addysgu neu brinder

ohono mewn maes penodol sy'n egluro'n bendant yr amrywiad amlwg yn swm y ddarpariaeth leol. Ymddengys bod agweddau ac uchelgeisiau'r darparwr yn llawer pwysicach.

- Yr ail yw y gallai'r amrywiad yn y patrwm a swm y ddarpariaeth rhwng ardaloedd fod yn gysylltiedig â'r anawsterau, y'u trafodir yn hwyrach, wrth ddatblygu'r maes sgiliau sylfaenol fel maes cwricwlwm proffesiynol. Os yw patrymau a symiau'r ddarpariaeth leol yn datblygu ar hap, yn dibynnu ar lefel y brwdfrydedd lleol a'r gweithgarwch o safbwynt ffrydiau cyllid a bod dim perthynas uniongyrchol rhwng swm, mathau a maint y ddarpariaeth ac anghenion y boblogaeth leol, yna cynhyrchir y neges nad yw darpariaeth sgiliau sylfaenol yn wasanaeth 'a reoleiddir' y mae gan boblogaethau lleol hawliau digon cyfartal iddo ar draws Cymru. Yn hytrach, mae'n parhau yn wasanaeth 'Sinderela' y mae llawer o'r ymatebwyr yn mynnu ei fod o hyd – ac felly yn un sy'n gyfyngedig ei apêl fel dewis gyrfa proffesiynol i athrawon.

**Staff a chymwysterau**

30. Os yw amrywiaeth a chymhlethdod yn nodweddion patrwm y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol, maent yn nodweddion hefyd y trefniadau staffio sy'n cyflwyno'r ddarpariaeth honno.

31. Yn y Colegau AB gafodd gyfweliad:

- Roedd nifer y staff yr adroddwyd eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno dysgu sgiliau sylfaenol yn amrywio rhwng 2 a 75.
- Nifer cyfartalog y staff oedd 16 (ond codir hyn yn sylweddol gan y Coleg 'pellennig' adroddodd fod ganddo 75 o staff).

32. Yn y darparwyr DSW gafodd gyfweliad:

- Roedd nifer y staff oedd yn ymwneud a chyflwyno yn amrywio rhwng 1 a 6.
- Roedd y nifer cyfartalog rhwng 3 a 4.

33. Yn nhermau contractau, y darlun mwyaf nodweddiadol yn Addysg Bellach oedd, mewn uned o tua 6-12 o staff sgiliau sylfaenol, byddai un neu ddau o gydlynwyr parhaol llawn amser yn cael eu cefnogi gan weddill y tîm fyddai'n cael eu cyflogi ar amrywiaeth o gontractau ffracsiynol (ond parhaol) a thelerau rhan amser, ansicr yn cynnwys mewnbwn oriau o rwng 2 a 12 awr.

34. Mewn Dysgu Seiliedig ar Waith, lle cyflwynir darpariaeth a gontractiwyd, mae'n fwy arferol i gael timau bach o staff sydd fwy neu lai yn barhaol ac yn llawn amser wedi'u trefnu gan gydlynydd parhaol llawn amser.

35. Roedd patrymau'r cymwysterau yr oedd staff oedd yn cyflwyno hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn meddu arnynt hefyd yn eithaf cymysg.

36. Mewn Addysg Bellach, y darlun arferol oedd un neu ddau o reolwyr sgiliau sylfaenol yn meddu ar gymhwyster addysgu sgiliau sylfaenol Lefel 3 neu Lefel 4 wedi'u cefnogi gan dîm y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn meddu ar gymhwyster addysgu cyffredinol (TAR er enghraifft) a chymhwyster addysgu sgiliau sylfaenol Lefel 2 (gyda'r City and

Guilds 9285 yn cael ei nodi amlaf, er y cofnodwyd 'hen' gymwysterau eraill City and Guilds hefyd, sef 9281 a 9282). Fodd bynnag, roedd amrywiad sylweddol. Awgrymodd un ymatebydd o Goleg fod llawer o'i thîm yn gymwys i lefel Gradd Meistr mewn agweddau amrywiol ar anawsterau dysgu. Cofnodwyd gan eraill bod rhai o'u staff wedi cyflawni'r cymhwyster Lefel 3 newydd, neu eu bod yn gweithio tuag ato.

37. Mewn darparwyr DSW ac yn y sector gwirfoddol gwelwyd cymysgedd tebyg: yn arferol, cydlynydd wedi'i gymhwyso'n dda wedi'i gefnogi gan dîm o athrawon cymwys, yr oedd gan y rhan fwyaf, ond nid pob un ohonynt, gymhwyster sgiliau sylfaenol Lefel 2 hefyd ('Mae ganddynt oll rifau City a Guilds' oedd yr agosaf y gallai un ymatebydd ddod at egluro'r mater). Fodd bynnag, er ei fod yn anodd meintioli'r pwynt yn union, ymddengys y gallai lefel gyfartalog cymwysterau athrawon sgiliau sylfaenol yn DSW fod ychydig yn is na'r cyfartaledd mewn sefydliadau AB.

38. Ar y cyfan, felly, mae'r darlun o staff cyflwyno sgiliau sylfaenol a'u cymwysterau fel a ganlyn:

- Niferoedd amrywiol iawn yn cael eu cyflogi gan wahanol sefydliadau.
- Trefniadau cyflogaeth amrywiol yn cynnwys staff ar gontractau parhaol llawn amser a ffracsiynol wedi'u hategu gan staff rhan amser a delir fesul awr; gyda chydbwysedd o ran defnydd y trefniadau hyn oedd yn amrywio ymysg sefydliadau.
- Proffil cymwysterau sy'n cynnwys yn bennaf statws 'athro cymwys ynghyd a chymhwyster sgiliau allweddol Lefel 2' ond y mae ynddo hefyd ychydig o bobl â gwell cymwysterau (yn aml yn gweithio fel rheolwr/cydlynydd tîm) a rhai â llai o gymwysterau (wedi cymhwyso fel athrawon ond heb unrhyw gymhwyster addysgu sgiliau sylfaenol ffurfiol neu, yn achos cynorthwywyr cefnogi dysgu, heb unrhyw gymwysterau y tu hwnt i'w cymwysterau TGAU neu Safon A eu hunain).

39. Fodd bynnag, er bod proffil cymwysterau'r gweithlu yn bwysig, yn enwedig mewn perthynas â'r disgwyliad y gellir datblygu gweithlu sgiliau sylfaenol mwy 'proffesiynol', nododd sawl rheolwr tîm fod profiad a nodweddion personol yn aml cystal o leiaf fel dangosydd o allu addysgu yn y maes 'sensitif i bobl' hwn â chymwysterau ffurfiol. A nododd yr ymchwil bod gweithrediadau oedd â rhai pobl llai cymwys wedi ennill a chadw Nod Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

**A oes diffyg yn y capasiti addysgu sgiliau sylfaenol?**

40. Lle roedd ymatebwyr wedi disgrifio yr hyn a gyflwynwyd ganddynt yn nhermau addysgu sgiliau sylfaenol a phwy oedd yn ei gyflwyno, gofynnwyd iddynt a oeddent yn canfod unrhyw ddiffyg yn y capasiti addysgu sgiliau sylfaenol yn eu sefydliad neu yn yr ardal leol.

41. Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn syrthio i nifer o grwpiau:

**Tabl 2: Rhai 'modelau capasiti'**

| Model | Esboniad |
|---|---|
| **Grŵp 1** Dim diffyg – cyfyngedig (5 achos) | Yn yr achosion hyn, adroddodd y sefydliad naill ai bod eu rôl mewn hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn eithaf cyfyngedig a/neu fod niferoedd neu gyfeiriadau myfyrwyr yn eithaf sefydlog neu'n dirywio. Disgrifiodd un darparwr, er enghraifft, ei staff sgiliau sylfaenol fel rhai 'nad oeddent yn cael |

| | |
|---|---|
| | eu hymestyn'.<br><br>*Dyfyniad dangosol*<br>'Ni fyddwn yn dweud bod hynny wedi bod yn broblem i ni, gallwn gyflawni ein hangen fel ag y mae pethau ar hyn o bryd. Pe bai hyn yn gwyrdroi a'n bod yn derbyn y nifer mawr o gyfeiriadau yr ydym wedi eu derbyn yn y gorffennol ac nid oes unrhyw reswm pam nad yw hyn yn digwydd, ond nid yw'n digwydd, ond pe bai pethau'n newid byddwn yn ei gael yn eithaf heriol i gwrdd â'r angen hwnnw nawr, oherwydd unwaith i chi roi'r gorau i'r gwasanaeth hwnnw mae'n anodd iawn ei roi yn ôl yn ei le.' |
| **Grŵp 2**<br>Dim diffyg – staff sefydlog (a chefnogaeth hyblyg)<br>(2 achos) | Adroddodd y sefydliadau hyn mai ychydig o anhawster oeddent yn ei gael gyda chapasiti oherwydd bod eu tîm sgiliau sylfaenol craidd yn sefydlog ac roedd ganddynt gefnogaeth ddigonol yn nhermau staff ar gontractau hyblyg dim oriau er mwyn dod i ben â sefyllfaoedd annisgwyl.<br><br>*Dyfyniad dangosol*<br>'Rydym yn ffodus iawn fod gennym staff cymwys a phrofiadol iawn sydd wedi bod yn dîm ac yn cydweithio ers amser hir. Os byddai angen recriwtio eraill arnom byddai'n anodd ond rydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd lle nad oes angen wedi codi i recriwtio, felly nid yw wedi bod yn broblem. Ond rwy'n ymwybodol nad yw'r bobl allan yna. Mae pobl yn anfon eu CVau i mewn ac yn gofyn a oes gwaith ar gael, ond nid oes ganddynt y cymhwyster Lefel 2 isafswm.' |
| **Grŵp 3**<br>Dim diffyg - uchelgais gyfyngedig neu gyllid cyfyngedig<br>(6 achos) | Mae'r sefydliadau hyn yn trefnu eu hunain yn ôl yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Mewn gwirionedd, roeddent yn cyfyngu eu huchelgeisiau cyflwyno i'r capasiti cyllid ac addysgu oedd ar gael iddynt. Gallai hyn gynnwys peidio â gwneud cais am gyllid pan oeddent yn gwybod y byddai llwyddo yn eu hymestyn. Roedd yn cynnwys cyfyngiadau mewnol gan uwch reolwyr ar ehangu timau sgiliau sylfaenol. Roedd yn cynnwys parodrwydd sefydliadol i dyfu gwaith sgiliau sylfaenol yn organig - pe bai athrawon yn dod ar gael efallai y byddent yn ceisio cynnig gwasanaethau ychwanegol, ond nid fel arall. Roedd yn cynnwys y farn y gellid ehangu'r ddarpariaeth sgiliau sylfaenol yn sylweddol ond ni fyddai cyllid canolog ar gael i ariannu'r ehangu.<br><br>*Dyfyniad dangosol*<br>'Rwy'n hoffi bod yn rhagweithiol ac ysgrifennais bolisi sydd wedi cael ei dderbyn yn bositif iawn gan y staff yn y coleg, er gwaethaf eu diffyg dealltwriaeth o Sgiliau Sylfaenol. Y broblem sydd gennyf wrth ofyn am fwy o staff yw diffyg dealltwriaeth Uwch Reolwyr ynghylch yr hyn yw Sgiliau Sylfaenol, y cymwysterau arbenigol y mae eu hangen i addysgu Sgiliau Sylfaenol, y broses ddethol a phroses gyflwyno unrhyw staff sy'n cael eu derbyn i'r coleg a'r ffaith ein bod ni, ym marn yr Uwch Reolwyr, yn wastraff amser, os ga i fod mor hy â dweud hynny. Dyna'r fagl yr wyf yn ei hwynebu.' |
| **Grŵp 4**<br>Dim diffyg – mae'r capasiti datblygu mewnol yn gryf<br>(4 achos) | Dywedodd y sefydliadau hyn, oherwydd bod ganddynt gapasiti hyfforddiant athrawon sgiliau sylfaenol mewnol cryf, y gallent ddatblygu staff yn ôl yr angen. Er enghraifft, gellid datblygu a chymhwyso cynorthwywyr cefnogi dysgu profiadol. Gellid trosi tiwtoriaid mewn adrannau eraill â'r diddordeb a'r gallu yn athrawon sgiliau sylfaenol. Gellid symud gwirfoddolwyr yn bwyllog i mewn i rolau medrus, cymwys â thâl.<br><br>*Dyfyniadau dangosol*<br>'Nid yw pobl â chymwysterau llawn yn gwneud cais. Yr hyn y gwelwn yn aml yw bod y rhai sy'n anfon cais atom yn rhannol gymwys a bod mwyafrif y bobl sy'n dod i mewn i'r tîm yn gweithio eisoes mewn rhyw fodd i'r Coleg. Weithiau, rydym yn recriwtio rhywun o'r tu allan ond fel arfer penodir rhywun mewnol. O safbwynt eu cymwysterau, rydym yn addysgu'r cymwysterau, pob un, Lefel 2, Lefel 3 a Lefel 4.'<br><br>'Rwy'n credu mewn gwirionedd ei fod yn dibynnu sut ydych yn defnyddio |

| | |
|---|---|
| | eich gwirfoddolwyr a sut ydych yn eu meithrin, ac rwy'n credu mai dyna yr ydym wedi ei wneud yn ystod rhan fwyaf y flwyddyn eleni. Yn y dosbarthiadau mae gwirfoddolwyr hefyd i gynorthwyo'r tiwtoriaid, ac yn aml byddant yn datblygu eu sgiliau ac yna'n symud ymlaen i fod yn diwtoriaid. Yna rydym yn gwneud y 9297 a'r TAR sy'n helpu ein staff i ddringo'r ysgol.'<br><br>'Anaml yr ydym yn cael pobl â TAR, oni bai eu bod wedi dod o sefydliad arall ac yn dysgu mewn ysgolion. Rydym yn tueddu i beidio â gwneud hynny, ac weithiau rydym yn cael pobl sy'n cyflawni swyddogaeth arall, yn addysgu pwnc technegol neu rhywbeth, a byddwn yn dechrau nhw ar Sgiliau Allweddol a Sgiliau Sylfaenol. Byddwn yn eu dechrau nhw yn addysgu hynny a gweld sut mae'n gweithio. Mae pobl yn syml yn ei wneud e, ac os ydyn nhw'n llwyddo, mae eu hyfforddiant ffurfiol yn dechrau.' |

| | |
|---|---|
| **Grŵp 5**<br>Oes, diffyg – argyfwng cael staff newydd<br>(3 achos) | Adroddodd y sefydliadau hyn broblemau capasiti yn bennaf yn nhermau digwyddiadau penodol, y problemau oedd yn digwydd pan fyddai unigolyn (llawn amser fel arfer) yn mynd yn sâl am gyfnod hir neu'n symud ymlaen. Y canlyniad oedd cyfnod o letchwithdod o ran trefniadaeth tan yr oedd modd dod o hyd i ateb. Yn eu hanfod, roedd y sefydliadau hyn yn sefydliadau 'Grŵp 2' (uchod) ond roedd sefydlogrwydd yn methu ynddynt ac nid oedd cefnogaeth hyblyg yn ei lle.<br><br>*Dyfyniadau dangosol*<br>'Nid wyf wedi wynebu unrhyw anawsterau sylweddol, ar wahân i'r llynedd, fis Medi, oherwydd collais un aelod o staff ac aeth hanner tymor cyfan heibio cyn i mi allu penodi rhywun. O ran y bobl oedd ar gael, erbyn i chi eu prosesu, ein hysbysebu a mynd drwy'r broses gyfweld a chael hyd i bobl oedd yn gallu gwneud yr oriau, oherwydd eto nid ydych yn cynnig contract llawn amser, rydym yn cynnig amserlen rannol, y mae'n rhaid i bobl ei ffitio o gwmpas gwaith arall. Ac yn anochel mae rhai pobl yn dweud wel a dweud y gwir nid wyf yn gallu gwneud yr oriau hynny, felly rydych yn jyglo byth a hefyd, ac aeth hanner tymor cyfan heibio cyn i mi allu dod o hyd i rywun oedd yn gallu gweithio yn y slotiau amserlen yr oeddem yn eu cynnig.'<br><br>'Mae'n fater pwysig o safbwynt diffyg staff cymwys, oherwydd cawsom ddigwyddiad eleni pan oedd ….. i ffwrdd am 6 mis, a chefais drafferth fawr cael rhywun yn ei lle hi. Doeddwn i ddim yn gallu cael neb, fe wnes i hysbysebu, defnyddiais fy holl gysylltiadau, es i i'r colegau. Yn y diwedd llwyddais i gael 3 tiwtor rhan amser oedd yn gallu dod i mewn a gwneud cwpl o oriau fan hyn a fan draw. Felly roedd gen i rywun o'r Sefydliad Addysg y Gweithwyr, oedd yn rhan o'r rhwydwaith, roedd gen i rai cysylltiadau o hynny. Cefais i rywun drwy Goleg ….., eto roedd yn rhaid i mi dalu. Ac yna roedd gen i rywun o Ddysgu Uniongyrchol ddaeth i mewn.' |
| **Grŵp 6**<br>Oes, diffyg - ymdopi gydag arbenigeddau a newidiadau yn y galw<br>(3 achos) | Nid oes gan y sefydliadau hyn ddiffyg cyffredinol wrth gyflwyno darpariaeth 'graidd'. Fodd bynnag, gallant wynebu anawsterau mewn dwy ffordd. Yn gyntaf gallant gael trafferth cyflwyno mathau penodol o ddarpariaeth (nodwyd yr iaith Bwyleg o fewn rhaglen ESOL er enghraifft gan nifer o ymatebwyr neu gallai darparu Dysgu Teuluol yr Addewid gan Gyflogwr achosi anawsterau).Y mater sylfaenol yw nid bod y 'capasiti' yn annigonol yn ei gyfanrwydd ond y gallai mathau penodol o ddarpariaeth ofyn am fathau penodol o sgiliau addysgu neu nodweddion personol nad ydynt ar |

| | |
|---|---|
| | gael i'r graddau digonol o fewn cyfanswm y capasiti hwnnw.<br><br>*Dyfyniadau dangosol*<br>'Y problemau i mi yw bod gennym raglen flynyddol lle rydym yn nodi slotiau mewn canolfannau cymunedol lle mae dosbarthiadau yn rhedeg o hyd. Mae gennym 4 Cydlynydd Cymunedol wedi'u dynodi i wahanol ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal, ac maent yn gwneud llawer o waith gyda grwpiau cymunedol presennol. Felly gydol y flwyddyn mae'n rhaid i ni gynllunio ein rhaglen flynyddol lawn blwyddyn ymlaen llaw a'i chael wedi'i chymeradwyo o ran faint sydd o dan sylw, a faint o ddysgwyr y byddwn yn eu cael, a gallu gwneud y cynllunio yn effeithiol. Felly gydol y flwyddyn - ac wrth gwrs mae angen i ni lenwi amserlenni pobl ar y pwynt hwnnw er mwyn cyfiawnhau eu swyddi. Felly pan fydd pobl yn cyflwyno angen yn hwyrach am gwrs byr mewn Llythrennedd Ariannol neu fod angen arnynt gwrs 8 wythnos ar Adeiladu Hyder drwy siarad a gwrando, mae'n anodd iawn eu staffio nhw, oherwydd nid oes modd cael pobl yn segur o gwmpas y lle.'<br><br>'Mae'r galw yn cynyddu mwy a mwy oherwydd Addewid y Cyflogwr, felly mae cwmnïau yn cysylltu â ni yn gofyn am gefnogaeth ac nid ydych yn gwybod o reidrwydd pa mor gadarn fydd y dosbarth, neu tan i chi gynnig y dosbarth nid ydych yn gwybod faint o ddysgwyr gewch chi.' |

| | |
|---|---|
| **Grŵp 7**<br>Oes, diffyg – prinder sgiliau generig ac eang (2 achos) | Dadleuodd y sefydliadau hyn fod prinder eang o sgiliau addysgu sgiliau sylfaenol yn ymestyn nid yn unig ar draws Cymru ond ar draws Lloegr hefyd.<br><br>*Dyfyniad dangosol*<br>'Wrth gwrs bod gennym broblemau diffyg capasiti, mae gan bawb y rheiny, nid oes digon o waed newydd ifanc yn dod i mewn i Sgiliau Sylfaenol. Byddai rhan fwyaf y staff dros eu 40. Ac mewn un ardal yn benodol, rydym wedi gorfod ymateb yn gyflym iawn i fewnfudo UE. Mae miloedd o Bwyliaid gennym yma. Rydym wedi mynd o gynnig tua 4 dosbarth yn 2001 i gynnig 60 a mwy yn 2007. Rydym wedi gorfod edrych yn galed iawn i sicrhau staff ESOL, problem fawr. Rydym wedi llwyddo o'r diwedd ac maent yn dîm cryf iawn, ond mae wedi bod yn anodd. Nid oes gan bobl y sgiliau a'r cymwysterau, a beth gallwn ni ei hysbysebu fydd yn denu pobl atom?' |

42. Mae'r dadansoddiad hwn felly yn awgrymu bod safbwyntiau darparwyr yn eithaf amrywiol o safbwynt capasiti sgiliau sylfaenol. Nid oes gan rai sefydliadau broblemau capasiti o ganlyniad i ddiffyg galw am ddysgu sgiliau sylfaenol. Mae rhai sefydliadau yn cydnabod diffygion mewn capasiti ond mae ganddynt amrywiol strategaethau ar gyfer osgoi effeithiau gwaethaf yr amgylchiadau hyn. Mae strategaethau ymdopi yn cynnwys:

- Lleiafu'r galw – peidio â mynd ar ôl yr holl lwybrau addysgu sgiliau sylfaenol y gallent eu dilyn pe byddai mwy o gapasiti (a mwy o gyllid) ar gael iddynt.
- Meddu ar adnoddau recriwtio a datblygu mewnol effeithiol.
- Dibynnu ar dîm staff sefydlog, yn ddelfrydol gydag adnodd staff wrth gefn ar gontractau dim oriau yn ôl yr angen.
- Llwyddo i drefnu rhyw fath o gynllun wrth gefn pan fydd aelod pwysig o'r tîm yn gadael neu nad ydynt ar gael mwyach.

43. Datgelodd is-set arall o ddarparwyr, fodd bynnag, amrywiaeth o ffyrdd a digwyddiadau manwl lle roedd diffygion mewn capasiti yn amlwg wedi cael effaith

negyddol ar swm ac effeithiolrwydd eu cyflwyno, ac mewn rhai achosion maent yn dal i wneud hynny.

44. Nid yw'r darlun felly yn un lle mae diffyg capasiti yn cyflwyno'i hun fel cyfyngiad dramatig hollgynhwysfawr i'r strategaeth genedlaethol ar gyfer gwelliannau sgiliau sylfaenol i oedolion - yn hytrach mae'n un sy'n cynhyrchu cefndir o uchelgais cyfyngedig, gweithredu ar hap, a gwneud y gorau o'r hyn sydd ar gael y mae llawer o'r broses gyflwyno yn digwydd yn ei erbyn.

**Y rhesymau dros gyfyngiadau mewn capasiti**

45. Gofynnwyd yn fwy manwl i ymatebwyr ynghylch yr hyn yn eu barn hwy oedd *gyrwyr sylfaenol* y sefyllfa hon. Ceir crynodeb o'u hymatebion isod.

46. Yn gyntaf, wrth gwrs, mae'n rhaid i unrhyw drafodaeth am brinder sgiliau edrych ar y cwestiwn o lefelau tâl mewn perthynas â'r gwaith sydd ei angen. Adroddodd nifer o ymatebwyr er bod y cyfraddau fesul awr weithiau'n edrych yn ddeniadol, nid oedd y gofyniad am gyfarfodydd ychwanegol, amser paratoi, marcio a thâl gwyliau a adeiladwyd i mewn i'r gyfradd bob amser yn cael ei wneud yn ddigon clir i athrawon a recriwtiwyd ar y gyfradd honno, neu o leiaf roeddent yn tueddu'n hwyrach i anghofio bod eu cyfradd yn cynnwys y tybiaethau hynny. Adroddodd rhai ymatebwyr mewn darparwyr DSW masnachol bod eu cyfraddau fesul awr yn cael eu cadw mor isel â phosib er mwyn mwyafu maint yr elw ar gyllid sgiliau sylfaenol. Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod y tâl yn rhy isel mewn perthynas â'r disgwyliad cynyddol y dylai fod gan staff gymwysterau Lefel 3 neu Lefel 4. Cysylltodd eraill dâl isel â chyfleoedd gwael ar gyfer cynnydd. Dyma rhai o'r sylwadau:

> *'Mae'r cyflog yn isel iawn ac mae gan diwtoriaid deimladau cryf iawn am y peth. Nid ydynt yn cael eu talu am gyfarfodydd, ac maent yn sylwi ar hynny, felly mae llawer o deimlad ynghylch dymuno gwneud mwy ond ar y llaw arall teimlad mae'n siŵr bod pobl mewn gwirionedd yn gweithio am y nesaf peth at ddim. Ac nid yw hynny oherwydd y cyflog y mae'r coleg yn ei roi ond mae'n gyffredinol, ar draws y system.'*

> *'Mae athrawon a thiwtoriaid Sgiliau Sylfaenol yn gwneud swm anferthol o waith papur yn eu hamser rhydd, a does neb, neu bron neb yn rhoi cydnabyddiaeth iddynt am hynny, dydw i ddim yn meddwl. Oherwydd os nad ydych yn nhŷ tiwtor Sgiliau Sylfaenol nid ydych yn sylweddoli mewn gwirionedd faint sy'n cael ei wneud ac mae hyn yn golygu bod y gyfradd fesul awr lawer yn llai nag y mae'n ymddangos.'*

> *'Wel roedd yr athrawon eraill mewn pynciau eraill oedd yn talu ar gyfradd fesul awr yn derbyn tua £20.00 yr awr ac yna roedd Sgiliau Sylfaenol yn £13.00.'*

> *'Mae rhifedd yn anodd fel y byddech yn ei ddisgwyl. Cael pobl i addysgu rhifedd. Mae'n rhaid i chi gael Lefel 4 mewn rhifedd ac rydych yn derbyn tâl o £18.00 yr awr, ac rydych yn cael mwy o arian yn gweithio mewn diwydiant felly byddwch yn mynd i weithio i rywle arall.'*

> *'Nid yw'r gyfradd yn dda ar gyfer swm y gwaith sydd ei angen, nac ydy yn sicr. Mae'n cael ei danbrisio'n fawr a phan edrychwch ar y cyflogau ar y cyfan mae'n isel. Mae gen i blant yn eu 20au sy'n gwneud gwaith corfforol am ddwywaith yr arian rwy'n ei ennill. Mae gen i fab nad yw'n fodlon codi o'r gwely ar fore Llun oni bai ei fod yn mynd i gael £500 yn ei law erbyn diwedd yr wythnos ar nos Wener.'*

> *'Y gŵyn fwyaf yw nad oes unrhyw ddatblygiad proffesiynol. Mae'n dal i fod yn gysylltiedig â'r hen system lle os ydych yn addysgu myfyrwyr lefel mynediad, cewch eich talu ar gyfraddau lefel mynediad. Felly gallwch ddod i mewn i goleg fel hwn ac addysgu Sgiliau Allweddol sy'n Lefel 1 a chael mwy o arian nag ar gyfer addysgu Sgiliau Sylfaenol. Ac os ydych yn addysgu Safon A neu ryw gymhwyster arall, cewch fwy eto. Ar sgiliau sylfaenol mae'n rhaid i chi ddechrau ar gontract dros dro rhan amser. Os mai chi yw'r prif enillydd arian, nid yw cael eich talu £14.95 yr awr am lai na 30 awr yr wythnos yn realistig. Ni fyddech yn gallu dod i ben, felly nid yw pobl yn dod i wneud y gwaith. Dyma pam rydych yn gweld cyfran fawr o fenywod canol oed. I gyfran fawr dyma eu hail incwm. Mae'n hyblyg, gellir ei addasu a gallant ei ffitio o gwmpas eu teuluoedd ac ati. Ond nid ydych yn mynd i gael llawer o ddynion am y rheswm hwnnw, oherwydd mai nhw fydd y prif enillydd ac nid ydych yn cael llawer o bobl ifanc, oherwydd nid oes datblygiad gyrfa, dim llwybr gyrfa.'*

47. Oherwydd y tybiwyd bod tâl yn rhwystr, ystyriwyd yn eang bod gweithio fel athro sgiliau sylfaenol, yn ymdrin yn aml â dysgwyr anfodlon neu'r rheiny sy'n cael dysgu yn anodd, yn gofyn am berson arbennig sydd yn aml ag ymrwymiad cryf i werth cymdeithasol a chymunedol addysgu a dysgu sgiliau sylfaenol. Mae hyn yn gwneud yn iawn am dâl isel ar ffurf y boddhad a geir, ond mae'n rhwystro'r farchnad lafur ar gyfer athrawon sgiliau sylfaenol oherwydd bod y rhai nad oes ganddynt yr ymrwymiad hwn naill ai yn osgoi'r proffesiwn neu'n gadael yn eithaf cyflym:

> *'Ac rwy'n meddwl hyn am ein staff Sgiliau Sylfaenol bod rhaid i chi gredu yn yr hyn yr ydych yn ei wneud a'r bobl yr ydym yn gweithio gyda hwy. Mae'n ymwneud â chael yr empathi hwnna gyda'r grŵp cleientiaid. Rwy'n credu eu bod yn cael llawer o foddhad o weld rhywun nad yw wedi cyflawni unrhyw beth yn ei fywyd ac maen nhw wedi ei helpu i gyflawni rhywbeth. Felly mae'n ymwneud â boddhad yn y gwaith hefyd.'*

> *'Rwy'n credu nad yw'n cael ei ystyried fel rhan o ddysgu o safbwynt y cyflog. Rwy'n credu eu bod yn arbenigol iawn ac mae'n rhaid i chi fod yn fath arbennig o berson i allu ei wneud e, yn enwedig i ddelio â'r bobl ifanc â'r holl anawsterau a'r rhwystrau sydd ganddynt, nid dim ond mater o droi i fyny a'i wneud e yw e. Rydych yn ymdrin â llawer o broblemau a materion cymdeithasol hefyd gyda'r bobl hyn.'*

> *'Mae'n fwy na Sgiliau Sylfaenol yn unig. Mae'n ymwneud â chael y gallu hwnnw i dderbyn y bobl hyn sydd wedi profi dim byd ond methiant neu gael eu gwrthod, ac mae'n ymwneud ag ymdrin â'r meddylfryd yna a gallu sefydlu perthynas â hwy. Mae rhai athrawon yn dda iawn am addysgu os oes diddordeb gan eu dosbarth ond pan rydych yn ymdrin â materion ymddygiadol neu gymdeithasol ar y raddfa sydd gennym ninnau weithiau, mae angen pobl arbennig arnoch.'*

48. Oherwydd y gofyniad hwn, cafwyd anfodlonrwydd eang â'r gred ganfyddedig nad yw swydd addysgu sgiliau sylfaenol yn opsiwn lle mae angen llawer o sgil penodol:

> *'Mae'r canfyddiad yn dal i fodoli, waeth faint bynnag o godi ymwybyddiaeth sy'n digwydd, mae'r canfyddiad yno o hyd, yn enwedig gyda llythrennedd, ddim cymaint gyda rhifedd, os gallwch siarad Saesneg yna gallwch chi ei addysgu. Ond mae ymchwil nawr wedi nodi bod addysgu Sgiliau Sylfaenol yn swydd â lefel uchel o sgil ac nid yw'n ymwneud a throsglwyddo'r pethau y gallwch chi eu gwneud yn unig. Ond mae canfyddiad o hyd os ydych yn siarad Saesneg yna gallwch addysgu Sgiliau Sylfaenol, felly gellir rhoi unrhyw un mewn dosbarth i'w wneud e.'*

> *'Rwyf wedi cael fy synnu'n ddiweddar oherwydd mae rhai pobl wedi dod i fy ngweld i, efallai nad yw eu dosbarth celf yn gwneud yn dda o ran niferoedd ac efallai eu bod yn credu bod Sgiliau Sylfaenol yn opsiwn hawdd, ac maent yn dod ataf i ac yn gofyn a oes unrhyw ddosbarthiadau Sgiliau Sylfaenol ar gael.'*

49. Yn tanseilio'r farn hon i raddau fodd bynnag, oedd rhai canfyddiadau bod y gofynion cyfredol i godi lefel sgiliau y gweithlu addysgu sgiliau sylfaenol yn rhy llym:

> '*Pam fod angen lefel 4 arnoch mewn ymarfer dysgu pan yng Nghymru y safon sgiliau sylfaenol genedlaethol yw i Lefel 1, y meincnod? Ond rydym yn addysg i Lefel 2 felly dylech fod 1 lefel uwchben yr hyn yr ydych yn ei addysgu?'*

> *'Dyma fy mhroblem fawr i. Cawsom gyfarfod safonau yr wythnos diwethaf gyda'r tiwtoriaid Sgiliau Sylfaenol eraill ac roeddem yn trafod y cymwysterau newydd sy'n dod i mewn, ac yn dweud bod yn rhaid i bawb gael eu hyfforddi i Lefel 3, Lefel 4 o leiaf. Ein barn am hyn yw ein bod ni'n mynd i golli rhai athrawon Sgiliau Sylfaenol gwerthfawr iawn iawn oherwydd gyda rhai o'r bobl sy'n addysgu Sgiliau Sylfaenol nawr, y rheswm eu bod yn dda iawn yn yr hyn y maent yn ei wneud yw oherwydd nad ydynt o reidrwydd yn academaidd iawn eu hunain, a thrwy wneud popeth mor academaidd, hyd at safon A neu safon gradd neu beth bynnag maen nhw'n ei wneud ac* edrych ar y peth mor fanwl, mae'n eu troi nhw yn erbyn y syniad.'

> *'Yn gyffredinol nid yw Lefel 4 yn eich paratoi ar gyfer addysgu ymarferol go iawn. A bydden nhw i gyd yn dweud hynny lawr llawr, er eu bod yn diwtoriaid profiadol, bydden nhw i gyd yn dweud yr un peth, tasen nhw'n gwneud y Lefel 4 yn unig ni fyddai'n eu helpu o gwbl. Dyna un o'r rhesymau dw i'n hoffi Lefel 3.'*

> *'Mae gen i gwpl o staff sydd wedi bod yn cyflwyno hyfforddant ers 25 mlynedd. Cafodd un ohonynt ofn ofnadwy oherwydd nad oes ganddi radd. Rwy'n credu bod gan rywun sydd wedi bod o gwmpas ers amser hir lawer o brofiad ymarferol da. Yna pan maen nhw'n siarad am, wel, y Lefel 4 yma, mae'n rhaid i chi gael hwn. Mae hyn yn troi pobl yn erbyn y peth, rwy'n credu.'*

> *'Mater arall ar hyn o bryd yw cael cymwysterau sy'n addas at y diben. Rwy'n credu bod Lefel 2 City & Guilds yn dda, ond o ran y Lefel 3 rwy'n ei gyflwyno ar hyn o bryd, rwy'n cael pob math o broblemau gydag e a bod yn onest. Roedd cymhwyster cefnogi City & Guilds Lefel 3, 9483, oedd mor anodd byddai angen gradd mewn Iaith Saesneg arnoch chi i allu ei wneud y effeithiol, neu yn sicr sawl blwyddyn o brofiad ESOL. Felly yr un y dewison ni i'w wneud oedd City & Guilds 9375 ond rwy'n credu ei fod yn afrealistig ac yn anodd ymdopi ag ef a llawer yn anoddach nag y dylai Lefel 3 fod.*'

50. Roedd peth o'r gwrthwynebiad i'r ymgyrch tuag at weithlu mwy cymwys yng nghyd-destun cydnabyddiaeth fod cynnydd gyrfa yn aml yn anodd ac yn aml nid oedd y cymhelliant i symud i gymhwyster uwch yn cyfateb i gyfle i ennill mwy o arian, symud i mewn i waith llawn amser, neu ennill rôl uwch.

> *'Nid oes llwybr strwythuredig i unrhyw un mewn addysgu sgiliau sylfaenol waeth bynnag yw'r cymhwyster. Rydych yn cael swydd fel tiwtor neu*

*ddarlithydd ac fe gewch gyfle, os oes modd ei alw'n gyfle, i fod yn gydlynydd cwrs, ac yna efallai cewch rôl Cydlynu Maes Rhaglen ac ychydig iawn o gyfleoedd am ddyrchafiad sydd ar ôl hynny.*

51. Roedd y cyfuniad o dâl isel canfyddedig a diffyg cyfleoedd ar gyfer cynnydd yn arwain at ganfyddiad mai menywod oedd rhan fwyaf y gweithlu, yn aml yn fenywod hŷn, sy'n fodlon gweithio ar delerau rhan amser:

*'Ac rwy'n credu mai un o'r anawsterau yr wyf wedi sylwi arno yn y tîm yw eu bod yn fenywod aeddfed. Does dim pobl ifanc yn symud i mewn i'r tîm, nid dyma yw eu dewis lwybr proffesiynol.'*

*'Oni bai eu bod yn dymuno ychydig bach o waith a allai fod yn addas i rai, oherwydd eu bod yn gwneud gwaith arall. Mae gennym bobl yn gweithio yn y Swyddfa Brawf ac yna gyda'r nos byddant yn dysgu cwpl o ddosbarthiadau, ac mae'n ymddangos bod hynny'n gweithio iddynt hwy. Ond nid hynny yw eu prif alwedigaeth.'*

52. Mae agwedd benodol arall at hyn yn ymwneud â darparwyr gwledig. Roedd y farn yn un gymysg. Roedd un darparwr yn teimlo bod lleoliad gwledig yn golygu bod gweithlu caeth gyda nhw oedd yn aml yn byw yn y lleoliad oherwydd eu hoffter o ffordd o fyw gwledig - a'u bod yn hapus i dalu'r pris o dâl isel a chyfleoedd cyfyngedig. Ar y llaw arall, roedd darparwr gwledig arall yn ystyried eu bod yn colli allan ar gyfleoedd trefol.

'Felly os ydych yn diwtor, ble ydych yn debygol o fynd, y ganolfan ddeinamig, gyffrous metropolitan, neu'r lle bach amaethyddol yng nghanol unman? Chi'n gwybod, hyn yn oed gyda'r bwriad gorau, nid yw'n syniad sy'n ddeniadol i bawb, felly mae'r rhaid ystyried hynny.'

53. Roedd rhai cyfyngiadau o ran gallu yn ymwneud â diffyg argaeledd cyrsiau hyfforddi, fel arfer i fynd ag athrawon tuag at y gofyniad Lefel 3 newydd. Roedd hyn yn fwy o broblem i ddarparwyr DSW nag i Golegau AB, gyda'r olaf yn aml â chapasiti mewnol i hyfforddi eu staff eu hunain i'r safon ofynnol. Mewn un achos, adroddodd darparwr DSW oedd yn agos at Goleg AB anhawster cael mynediad i hyfforddiant Lefel 3 tra dywedodd y Coleg nad oedd yn cael anhawster.

54. Roedd materion fodd bynnag ynghylch nid argaeledd hyfforddiant yn unig, ond gyda'i gost mewn amrywiol ffyrdd:

'*Rwy'n awgrymu nad mater newydd yw hwn. Mae'r dyfarniadau newydd hyn ar y gweill ers tro, ac rwy'n credu ei fod yn dweud llawer ein bod ni'n dal i wynebu problemau ynghylch a yw pobl yn ei wneud e ai peidio, ac a oes digon o bobl yn ei wneud e. Rwy'n credu bod y ffaith ei fod wedi cymryd mor hir â hyn i ddweud a yw e hyd yn oed yn digwydd ai peidio yn dweud wrthyf nad yw e'n gweithio. Oherwydd os oes rhaid i ni ei wneud e er mwyn bodoli fel canolfan, y realiti yw ei fod yn ddrud iawn, ac yn llyncu llawer o amser. Wrth i ni leihau neu ad-drefnu rydym yn llai o faint ac mae llai o gapasiti gennym er mwyn cwmpasu popeth.'*

*'Mae talu am hyfforddiant yn fater hefyd. Mae agwedd amlwg yn parhau mewn llawer o golegau nad ydynt yn fodlon talu staff sy'n cael eu talu fesul awr i droi i fyny ar gyfer hyfforddiant staff. Mae'n warthus, ac nid yn y Coleg hwn yn unig, mae'n berthnasol i lawer o golegau ar draws Cymru. Weithiau eu hagwedd yw, rydych yn ffodus i dderbyn hyfforddiant, dylech droi i fyny a bod yn ddiolchgar.'*

> *'Y broblem hefyd yw rhyddhau pobl i allu mynd ar y cyrsiau hyn, oherwydd mae'n rhaid i chi redeg eich cyrsiau'n iawn o ddydd i ddydd. Mae'n rhaid i chi ryddhau eich hyfforddwyr i gyd ar unwaith, oherwydd nid yw'r peth yn digwydd fesul cam. Mae hynny'n broblem fawr i ni.'*

55. Os yw costau hyfforddiant weithiau'n cael eu hystyried yn feichus, yna mae'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chyflwyno sgiliau sylfaenol hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cyfyngu ar amser addysgu:

> *'Mae'r gwaith papur yn aruthrol, oherwydd mae'n rhaid i i ni eu llenwi ar gyfer pob dysgwr. Ar raglen 8 wythnos mae'n rhaid i ni gwblhau 4 ffurflen ESF, ffurflen gofrestru, ffurflen arholiad, ffurflen gofrestru OCN, ffurflen argymell Dyfarniad neu Gredyd, fell rydych yn sôn am 8 ffurflen ar gyfer pob dysgwr.'*

> *'Wel ni allwn ddarparu unrhyw rifedd ar hyn o bryd, mae hynny'n un peth. Ni allwn ymateb i'r galw yn y gweithle. Nid oes darpariaeth gymunedol gennym oherwydd nid yw'r gallu gennym i'w ddarparu'n gorfforol. Byddwn yn awgrymu bod ansawdd y dysgu a'r addysgu yn Sgiliau Sylfaenol ar draws maes y cwricwlwm yn dioddef o ganlyniad i'r amser sydd gennym i'w dreulio ar baratoi ac adnoddau a'r defnydd o amser, oherwydd yn ogystal â darparu'r addysgu, mae'n rhaid i ni ymdopi â'r gwaith papur.'*

> *'Os nad ydych yn diwtor ymroddedig ni fyddwch yn para 2 funud. Oherwydd mae'n rhaid iddyn nhw gysylltu popeth â'r cwricwlwm, ac mae'n rhaid iddyn nhw wneud cynlluniau dysgu unigol, mae dysgu unigol yn y dosbarth, nid trafodaeth. Mae pawb yn gweithio ar eu cyflymder ei hun, mae wedi'i deilwra'n llwyr i'r unigolyn. Mae swm y gwaith papur yn aruthrol.'*

56. Yn anochel, mae gan unrhyw weithgarwch a ariennir yn gyhoeddus gyfyngiadau cyllido. Yn y maes sgiliau sylfaenol roedd hyn yn amlygu'i hun mewn nifer o wahanol ffyrdd. Nodwyd uchod bod rhai sefydliadau AB yn cydnabod cyfyngiadau cyllidol ac yn gosod eu lefel o weithgarwch o fewn y ffiniau hynny. Roedd yna, fodd bynnag, bryderon nad oedd cyllid sgiliau sylfaenol yn cael ei glustnodi mewn Colegau ac y gellid ei gyfeirio at ddibenion eraill, ac yn wir roedd hynny yn digwydd. Roedd pryder nad oedd unrhyw arian ar gael i drosglwyddo contractau ffracsiynol yn rhai llawn amser neu barhaol:

> *'Mae rhan fwyaf y staff ar yr hyn yr ydym yn eu galw yn gontractau F4. Nid oes gennym y twf mewn cyllid i roi contractau sicr iddynt a dyma wraidd lawer o'r problemau. Mae tiwtoriaid gennym sy'n fodlon rhoi'r gorau i swyddi llawn amser i fod yn Diwtoriaid Sgiliau Sylfaenol. Yn eu hamser eu hunain maent wedi gwneud yr hyfforddiant ond nid oes gan y colegau yr arian i roi'r cyfle iddynt i ymuno yn llawn amser. Mae'n sefyllfa amhosib mewn gwirionedd. Gyda'r holl farchnata a datblygu, mae pawb yn gweithio tua'r un nod o gael cynifer o ddysgwyr â phosib i mewn i hyfforddiant Sgiliau Sylfaenol. Mae digon o ddysgwyr allan yna i gadw tiwtoriaid llawn amser neu ran amser yn brysur. Ond y ffaith yw nad oes gan y coleg yr arian i gyflogi'r tiwtoriaid.'*

57. Roedd cyllid ansicr yn broblem hefyd:

> *'Cyllid yw'r broblem bob tro. Rydym o hyd yn mynd o un cais ESF i'r nesaf. Rydym wedi bod yn lwcus i gael 8 mlynedd o un cais. Byddwn yn dod at ei ddiwedd y flwyddyn nesaf. Nid ydym yn gwybod beth sy'n digwydd ar ôl hynny. Mae'r mater o arian cydgyfeirio wrth gwrs, ond nid ydym yn gwybod beth mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd, ac rwy'n credu ei fod yn*

*gadael pawb yn meddwl ai darpariaeth tymor byr fydd hyn, a fydd disgwyl i golegau ei ddarparu yn y dyfodol, neu a fydd yn mynd i rywle arall. Does neb mewn sefyllfa i ddweud y byddwn yn recriwtio'r holl aelodau staff parhaol llawn amser yma ac y byddwn yn ymrwymo ein hunain i'r math yma o ddarpariaeth. Mae'n teimlo fel rhywbeth byr dymor iawn.'*

58. Fel ag yr oedd y cymhlethdod ynghlwm wrth gyfleoedd ariannu ad hoc:

> *'Weithiau mae grantiau ar gael i ni ar gyfer mentrau amrywiol a hyfforddiant, ond maent mor gymhleth. Nid oes amser gen i i eistedd lawr a mynd drwy dudalennau ar dudalennau ac aros i'r adran Gyllid ddweud wrtha i beth y gallwn ni ei wneud, ac aros. Chi'n gwybod, mae'n rhaid i'r broses fod yn un syml.'*

59. Roedd o leiaf un ymatebydd yn credu nad oedd cyllid oedd wedi'i yrru gan allbynnau yn cydnabod y gwerth mewn datblygu dysgwyr yn briodol:

> *'Mae cyllid yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag allbynnau, yn hytrach na thalu am yr asesiad a chynnydd ar hyd y ffordd. Nid yw'n cydnabod yr hyn sydd ei angen ar bobl mewn gwirionedd a'r hyn maent yn ei ddymuno pan fyddant yn cofrestru ar gyfer cwrs sgiliau sylfaenol.'*

60. Ac roedd pryder, er bod cyllid digonol ar gael ar gyfer deunyddiau dysgu, bod cyfyngiadau ar ddatblygu'r staff i gymhwyso'r deunyddiau hynny:

> *'Mae'r llenyddiaeth sydd gennym yn aruthrol. Mae'r holl adnoddau yma ar gael, gallwch ffonio i fyny a chael 10 copi o'r ffeil hon, llall ac arall, ond pam nad ydyn nhw'n hyfforddi neb i gyflwyno'r gwaith yma?'*

61. Roedd yn cael ei adnabod hefyd bod anawsterau rhagweld yn broblem wrth geisio datblygu cynllun cyflwyno sgiliau sylfaenol lleol:

> *'Hynny yw, gall neb ragweld yn gywir mewn gwirionedd, na allant? Gallem fod yn cynllunio yfory a dweud bod 50 o bobl sydd angen hyfforddiant Sgiliau Sylfaenol, ond nid ydym yn gwybod hynny, dim ond dyfalu ydym.'*

62. Yn olaf, mae'n amlwg, fel y gwelwyd yn gynharach, bod cyflwyno sgiliau sylfaenol yn naturiol gymhleth - llawer o bartïon yn ymwneud a'r cyflwyno, llawer o wahanol grwpiau targed, ffrydiau cyllido amrywiol, llawer o wahanol fathau a lefelau o gyrsiau a chymwysterau ar gyfer dysgwyr sgiliau sylfaenol a'u hathrawon - ac hefyd bod yr amgylchedd sgiliau sylfaenol wedi esblygu yn gyflym dros y blynyddoedd diwethaf. Efallai y gellid disgwyl y byddai'r cymhlethdod hwn yn achosi peth dryswch yn y gweithlu sgiliau sylfaenol ac roedd sawl cyfweliad yn awgrymu bod hyn yn wir. Mae'n anodd sefydlu cysylltiad uniongyrchol ond ymddengys ei fod yn bosib o leiaf bod cymhlethdod a newid, a'r gallu i ymdrin â'r rhain, ynddyn nhw'u hunain yn un esboniad ynghylch pam mae materion capasiti, fel uchod, yn wahanol rhwng gwahanol sefydliadau sydd i bob pwrpas yn yr un sefyllfa, yn cael eu hesbonio'n wahanol ac yn amlygu'u hunain mewn gwahanol ffyrdd:

> *'Roeddem am gyflwyno Lefel 3 eleni ond doedden ni ddim yn gallu. Roedd City & Guilds yn barod i wneud hynny. Am ryw reswm ni gafodd ei lansio ar 4ydd Gorffennaf, ni gafodd ei lansio tan fis Hydref, ac felly ychydig iawn o bobl sydd wedi gallu ei gyflwyno eleni. Mae'r rhai sydd wedi gwneud hynny wedi cael arian ESF neu arian arall er mwyn gallu ei wneud, felly dyw hynny ddim wedi digwydd i ni. Mae'r un peth yn wir gyda Llythrennedd Lefel 4. Rydym yn hapus iawn i'w redeg yma, y Lefel 4, oherwydd nid oes un*

*rhifedd yng Nghymru, ond doedd dim digon wedi cofrestru oherwydd roedd pobl yn teimlo eu bod yn aros i wneud y Lefel 3. Roeddent yn meddwl wel os yw'r Lefel 3 ar gael, i'r rhan fwyaf ohonynt roedd hynny'n fwy priodol na neidio'n syth i mewn i Lefel 4. Ac wrth gwrs roedd sefydliadau yn edrych ar yr holl arian yr oeddent yn ei gael ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan ddweud nad ydym yn mynd i roi'r Lefel 4 i chi, rydym am i chi wneud y Lefel 3 oherwydd bydd hynny o fwy o fudd, ac yna wnaeth e ddim digwydd.'*

*'Mae colegau eraill yn prynu i mewn i Sgiliau Sylfaenol ar raddfa fawr ac maent yn gwneud symiau enfawr o arian allan ohono fel menter busnes. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol sylweddoli yr hyn yw'r anghenfil y maent wedi'i greu a sut mae'n cael ei weinyddu mewn colegau fel ein un ni. Hynny yw, gallaf feddwl am 2 neu 3 coleg, lle mae un person yn eu rhedeg ac maent yn rhedeg o gwmpas fel pethau dwl. Mae'r hyn y mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol wedi gwneud gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn wych. Maent wedi nodi angen enfawr. Mae Adroddiad Leitch ganddynt, ac mae ganddynt pob math o fentrau a chymhellion o ganlyniad i hynny. Ac mae'r hyn y maent yn trio'i wneud o'r radd flaenaf, mae'n wych. A gallaf ddeall bod yn rhaid gwerthuso a monitro eu holl fentrau neu beth bynnag, ond ni allwn ni addysgu a gwneud hynny i gyd. Maent wedi creu anghenfil ac yn fy sefyllfa i mae'n anghenfil afreolus. Efallai bod colegau mawr yn gallu ymdopi. Dw i ddim yn gwybod ac yn sicr dw i ddim yn rheolwr fan hyn, felly dw i ddim yn gwybod hynny chwaith. Dw i ddim yn gwybod ar wahân i'r LLDD ac ychydig bach am sut mae AADGOS yn ariannu cyrsiau.'*

*'Y mater arall yw nad ydyn nhw'n glir ynghylch beth sy'n mynd i mewn i'r hyfforddiant hwn eu hunain, o'r hyn yr ydym yn ei ddeall. Ni allwn gael gwybodaeth ynghylch beth yn union maen nhw am i chi ei wneud. Mae sibrydion hefyd bod y peth yn mynd i newid beth bynnag. Nid oes canllawiau clir i rywun sydd wedi ennill eu tystysgrifau dysgu, eu TAR ac ati, os gallant APT unrhyw beth ar draws ohono neu a fydd yn rhaid iddyn nhw ei wneud o'r dechrau. A does dim byd chwaith ynghylch pa lefelau y maen nhw am i bobl eu gwneud. Hefyd gyda'r newidiadau maen nhw am eu cyflwyno, gyda'r holl gymwysterau maen nhw'n dod i mewn â hwy, nid ydym yn gwybod ble y byddwn yn ffitio i mewn o safbwynt pa hyfforddiant y byddai ei angen i ni ei wneud neu beth y byddwn yn ei gyflwyno yn y pen draw.'*

*Newidiwyd y Lefel 2. Y 9295 oedd e, nawr y 9275 yw e ond maen nhw wedi newid hynny ychydig ac rwy'n credu efallai er gwell, oherwydd roedd prawf ysgrifenedig, ac maen nhw wedi cael gwared ar hwnnw nawr a rhoi asesiadau yn ei le. Anelir y 9375 at athrawon sgiliau sylfaenol, ac anelir y 9483/4 at ddarlithwyr galwedigaethol. Rwy' wedi bod yn ymwneud â'r gweithdai ymarfer dysgu felly rydym wedi edrych ar y rhain. Mae lefel y gramadeg ar gyfer yr ochr llythrennedd a lefel y fathemateg y mae disgwyl i'r darlithwyr galwedigaethol weithio arni yn uchel dros ben. Mae angen lot o ymdrech dw i'n credu ac oherwydd bod yn rhaid iddyn nhw ei wneud yn eu hamser eu hunain nid ydym yn mynd i gael yr ymrwymiad yna. Nawr maen nhw wedi ei dynnu yn ôl am ryw reswm. Rwy'n credu ei fod ar waith yn Lloegr. Nid oeddem ni wedi cael ein hariannu ar ei gyfer, wedyn daeth yr arian i mewn a nawr rydym wedi clywed bod Lloegr wedi ei dynnu yn ôl, a chyn belled ag y gwyddon ni does dim byd yn ei le.'*

63. I grynhoi, felly, mae darparwyr yn priodoli eu cyfyngiadau o ran capasiti i ystod o ffactorau cyd-gysylltiedig, y roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u rhagflaenu gan yr Asesiad Tystiolaeth Cyflym oedd yn ffurfio Cyfnod 1 yr ymchwil hwn i gapasiti sgiliau sylfaenol:

- Tâl isel, heb fod yn gystadleuol, yn enwedig pan ystyrir y dyletswyddau ychwanegol nad ydynt yn ddyletswyddau dysgu sydd wedi'u cynnwys yn y cyfraddau fesul awr.
- Y gofyniad yn llawer o rolau sgiliau sylfaenol am lefel o ymrwymiad i, a diddordeb yn, y swyddogaeth sgiliau sylfaenol sydd y tu hwnt i'r cyffredin.
- Cred anghywir nad yw addysgu sgiliau sylfaenol yn rôl lle mae angen arbenigedd proffesiynol sylweddol ac, felly, rhai canfyddiadau o fewn a'r tu allan i fudiadau addysgu bod 'sgiliau sylfaenol' yn faes gwaith statws isel.
- Canfyddiadau eithaf cyferbyniol y gallai'r ymgais bresennol i broffesiynoleiddio'r gweithlu drwy ei wneud yn ofynnol bod gan fwy o staff gymwysterau lefel uwch (Lefel 4 yn benodol) yrru allan staff profiadol a chymwys.
- Cydnabyddiaeth fod cyfleoedd cynyddu gyrfa mewn sgiliau sylfaenol, sy'n aml yn cael eu cyflwyno gan dimau staff eithaf bach, yn gyfyngedig iawn. Mae hyn, ynghyd â'r cyfyngiad ar dâl, yn arwain at arweinyddiaeth timau yn cael ei gyflawni gan bobl hŷn, menywod yn aml, gan ddefnyddio oriau addysgu sgiliau sylfaenol rhan amser fel incwm atodol yn unig.
- Cyfyngiadau o ran argaeledd cyrsiau Lefel 3, efallai mwy ar gyfer darparwyr DSW nag ar gyfer Colegau, gyda therfynau argaeledd yn cael eu hategu gan rwystrau cost ac amser i ffwrdd o'r swydd.
- Biwrocratiaeth fel cyfyngiad ar yr amser sydd ar gael ar gyfer addysgu gwirioneddol.
- Cyfyngiadau cyllidol o amrywiol fathau – argaeledd llwyr, ansicrwydd, cymhlethdod, ffocws ar gyllid seiliedig ar allbynnau, gorbwyslais ar ddeunydd ar draul staffio.
- Anhawster wrth gynllunio lefel y capasiti sydd ei angen o ystyried na ellir rhagweld yn hawdd sawl maes galw ar gyfer addysgu sgiliau sylfaenol (yn y gymuned neu gan gyflogwyr).
- Cymhlethdod ac unrhyw newid ym mecanweithiau sgiliau sylfaenol sy'n golygu bod rhai sefydliadau yn cynhyrchu llawer mwy o gapasiti/cyflwyno nag eraill – yn dibynnu ar benderfyniad rheolwyr a chydlynwyr ynghylch i ba raddau y gellid ac y dylid datblygu'r agenda sgiliau sylfaenol.

**Effeithiau cyfyngiadau mewn capasiti**

64. Roedd darparwyr sgiliau sylfaenol yn ceisio lleiafu wrth gwrs effeithiau cyfyngiadau ar gapasiti. Roedd barn gyffredinol waeth bynnag oedd y cyfyngiadau mewn capasiti, nid oedd myfyrwyr, ar y cyfan, yn dioddef o ganlyniad i addysgu o ansawdd gwael. Fodd bynnag, nodwyd sawl effaith i raddau amrywiol, yn cynnwys:

- Effeithiau ar *gyfanswm nifer* y myfyrwyr y gellid eu haddysgu. Roedd rhai sefydliadau yn siomedig nad oeddent yn gallu hyfforddi unrhyw fyfyrwyr oni bai am y rhai â datganiad. Roedd eraill yn nodi bod mwy o fyfyrwyr yn cael eu hasesu bod ganddynt wendidau yn eu sgiliau sylfaenol nag yr oedd modd iddynt ymdopi â hwy.

- Effeithiau ar *staff* gyda chydlynwyr a goruchwylwyr yn dweud eu bod yn 'ymdrin ag argyfyngau' a bod angen iddyn nhw'u hunain ac eraill weithio oriau hir er mwyn llenwi yn ystod absenoldebau annisgwyl.
- Nodwyd digwyddiadau lle roedd angen i diwtoriaid gyda'r amrywiaeth 'anghywir' o sgiliau neu bersonoliaeth wneud gwaith mewn meysydd lle nad oeddent yn gwbl gyfforddus (er enghraifft, disgwyl i diwtor oedd yn effeithiol yn amgylchedd y Coleg i fynd allan i gyfleuster cymunedol neu eiddo cyflogwr lle roeddent yn llai effeithiol).
- Cyflwyno addysgu sgiliau sylfaenol mewn grwpiau mwy o faint nag y tybiai'r ymatebydd oedd yn ddelfrydol.
- Trwybwn is neu oedi wrth gyflwyno elfen sgiliau sylfaenol cwrs hyfforddi DSW lle roedd lefelau staffio yn is na'r lefelau gofynnol.
- Dosbarthiadau a ganslwyd yn achlysurol (ond roedd hyn yn digwydd nid oherwydd diffyg capasiti addysgu ond oherwydd nad oedd modd recriwtio niferoedd digonol o fyfyrwyr i wneud y dosbarth yn ariannol ddichonol – sef y gwrthwyneb i broblem 'capasiti').

65. Un neu ddau o achlysuron a gafwyd pan oedd ymatebwyr yn teimlo y gallai eu cyfraddau cyflawniad wedi dioddef oherwydd anawsterau staffio; ac roedd y farn hon yn rhannol gysylltiedig ag awgrym bod rheolau cyllido yn eu gorfodi i wthio myfyrwyr â gallu eithaf cyfyngedig tuag at gymwysterau uwch nag yr oeddent yn gallu eu cyflawni o fewn yr amserlen oedd ar gael.

66. Ar y cyfan, roedd teimlad, ar wahân i ddigwyddiadau fel y rhai uchod o safbwynt effeithiau problemau capasiti, fod gan ran fwyaf y sefydliadau reolwyr profiadol oedd yn llwyddo i reoli anawsterau ac yn osgoi methiannau *mawr* gydag effeithiau eang ar ddysgwyr sgiliau sylfaenol. Os oedd 'effeithiau eang' roeddent ar y niferoedd o unigolion y gallai fod wedi bod arnynt angen gefnogaeth ddysgu ond nid oedd modd ei gynnig iddynt o fewn terfynau cyllid; yn hytrach na bod dysgwyr oedd yn cael eu tynnu i mewn i ddysgu sgiliau sylfaenol yn derbyn darpariaeth o ansawdd gael (ar wahân i achosion achlysurol).

**Gwella'r sefyllfa capasiti**

67. Wrth i drafodaethau gyda darparwyr ddod i ben, gofynnwyd i ymatebwyr beth yn eu barn hwy oedd arfer da wrth wella'r sefyllfa capasiti a nodi unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yr oeddent yn meddwl y byddai'n cael yr effaith honno. Mae llawer o'u syniadau wedi'u hadeiladu i mewn i'r dadansoddiad o ganfyddiadau darparwyr am y rhesymau dros ddiffygion mewn capasiti a adroddwyd yn gynharach yn y bennod hon. O anghenraid, petaent yn gweld agwedd ar yr amgylchedd sgiliau sylfaenol yr oeddent yn teimlo oedd yn aneffeithlon neu'n aneffeithiol, y 'datrysiad' oedd cael gwared â'r broblem neu ei datrys. Gellir nodi hefyd, fel yr ydym wedi sylwi uchod, dywedodd rhai o'r ymatebwyr o leiaf fod y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol yn ei chyfanrwydd mor gymhleth nad oeddent yn deall yn glir beth oedd yn digwydd. Wrth awgrymu 'datrysiadau' y gallent, mewn gwirionedd, fod yn awgrymu datblygiadau a allai fod ar waith eisoes. Gan gadw'r pwyntiau hyn mewn cof, fodd bynnag, amlinellir barn darparwyr ynghylch yr hyn sy'n fanteisiol i'r sefyllfa gapasiti, neu y byddai'n dod â manteision petai'n cael ei roi ar waith, isod:

*Adnoddau datblygu mewnol*

68. Roedd yn glir o'r cyfweliadau mai rhai o'r sefydliadau hynny â'r nifer lleiaf o anawsterau capasiti oedd y rheiny, sef Colegau AB yn bennaf, oedd ag adnoddau

datblygu mewnol cryf. Yn yr achosion hyn, roeddent yn gallu nodi unigolion, gwirfoddolwyr o bosib, neu gynorthwywyr cefnogi dysgu, neu diwtoriaid mewn pynciau eraill oedd yn dymuno symud i mewn i sgiliau sylfaenol fel gyrfa, y gellid eu cynorthwyo tuag at statws tiwtor sgiliau sylfaenol cymwys.

69. Adroddodd un ymatebydd o goleg AB hefyd y gallai cefnogaeth a datblygu mewnol da helpu i gynyddu hyblygrwydd tiwtoriaid sgiliau sylfaenol sy'n gallu gweithredu'n gyfforddus mewn amrywiaeth o leoliadau – er mwyn dod yn unigolion 'aml-sgil, aml-amgylchedd, aml-brofiadol ac aml-hyderus' y gellid eu defnyddio i gyflwyno addysgu sgiliau sylfaenol lle bynnag oedd y galw yn codi.

*Ymarfer dysgu cyffredinol*

70. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo mai'r datrysiad hirdymor ar gyfer y broblem capasiti oedd cyflwyno modiwlau addysgu sgiliau sylfaenol fel rhan ganolog cymwysterau sylfaenol athrawon:

> *'Hoffwn weld ymwybyddiaeth sgiliau sylfaenol yn rhan o bob TAR. Mae'n rhaid i bawb wneud ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ac anabledd. Dylid rhoi sgiliau sylfaenol ar yr un raddfa o leiaf fel bod pob athro sy'n dod i mewn i AB â phrofiad o adnabod problemau sgiliau sylfaenol a'r sail o leiaf ar gyfer symud i mewn i addysgu sgiliau sylfaenol ei hun.'*

*'Ymgorffori' gydag athrawon galwedigaethol*

71. Yn yr un modd, roedd ymatebwyr yn teimlo bod gwelliannau mewn capasiti yn gysylltiedig â datblygu mwy o athrawon pynciau galwedigaethol â'r gallu i nodi ac ymdopi'n rhannol ag anawsterau sgiliau sylfaenol dysgwyr eu hunain.

72. Adroddodd un Coleg o leiaf eu bod yn ceisio datblygu hyfforddiant sgiliau sylfaenol a threialu rhaglenni i hyfforddi tiwtoriaid galwedigaethol mewn cefnogaeth sgiliau sylfaenol; ac roeddent wedi'u cefnogi gan y rheolwyr a'r tiwtoriaid eu hunain - ond roeddent yn cael eu rhwystro o ran amser yn yr ymdrechion hyn oherwydd eu hymrwymiadau prif-ffrwd.

*Mentora athrawon sgiliau sylfaenol newydd*

73. Trafodwyd mentora athrawon sgiliau sylfaenol newydd neu gymharol newydd yn eang gyda darparwyr fel ffordd o gynyddu capasiti drwy leihau nifer yr athrawon sy'n gadael addysgu sgiliau sylfaenol ar gam cynnar. Mae'r holl ymatebwyr yn cefnogi'r syniad hwn. Fodd bynnag, yn yr un modd, adroddodd pob un fod mentora, gyda graddau amrywiol o ffurfioldeb yn dibynnu ar faint y tîm sgiliau sylfaenol, sydd yn ei le eisoes. Adroddwyd yn eang am gyflwyno ffurfiol, addysgu ar y cyd (athrawon profiadol a dibrofiad gyda'i gilydd) ac ymweliadau goruchwylio. Nid yw'n ymddangos, felly, bod llawer o gyfle i gynyddu yn y maes hwn.

*'Cronfa gyflenwi'*

74. Trafodwyd y cwestiwn o ddatblygu cronfa gyflenwi o athrawon sgiliau sylfaenol ar sail ranbarthol neu isranbarthol fyddai'n cydweddu â'r trefniadau 'cyflenwi' mewn addysg uwchradd hefyd.

75. Ar y cyfan, ni gafodd ei groesawu, gyda'r brif wrthddadl yn nodi na fyddai darparwyr yn hapus â thiwtoriaid nad oeddent yn eu hadnabod yn cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd (efallai gyda grŵp cymunedol neu mewn eiddo cyflogwr) lle na fyddent yn gallu rhagweld canlyniad nac ansawdd yr addysgu. Mewn arfer, fel yr adroddwyd

yn gynharach, roedd llawer o ddarparwyr (yn enwedig mewn Addysg Bellach) yn cynnal eu ‘cronfeydd cyflenwi’ staff eu hunain ar gontractau dim oriau neu oedd yn ymgymryd â nifer isel o oriau yn unig y gellid eu defnyddio ymhellach pan oedd diffygion yn codi.

*Gwella’r ddarpariaeth hyfforddiant*

76. Adroddodd sawl ymatebydd y gellid gwella’r gofyniad neu’r dymuniad i wella cymwysterau eu tiwtoriaid os byddai:

- Cyrsiau Lefel 3 ar gael yn haws iddynt. Roedd hyn yn fwy tebygol o gael ei adrodd gan ddarparwyr DSW na darparwyr AB.
- Cyrsiau hyfforddi ar gael yn amlach (fel nad oedd rhaid i athrawon mewn sefydliad fynd ar yr un pryd i ddiwrnodau hyfforddiant penodol, ond yn hytrach eu bod yn gallu mynd yn eu tro).
- Grantiau ar gael i dalu cost yr hyfforddiant ei hun neu gyflenwi (er yr adroddodd rhai sefydliadau bod cyllid o’r fath wedi bod ar gael, naill ai o gyllidebau mewnol y Coleg ar gyfer datblygiad proffesiynol neu gan ffynonellau allanol).
- Cyflenwad yr wybodaeth ar ba gyrsiau hyfforddi i athrawon sgiliau sylfaenol sydd ar gael. Awgrymodd un darparwr DSW y byddai cronfa ddata ganolog o gyrsiau addysgu sgiliau sylfaenol, eu dyddiadau, amserau a chost yn help mawr iddynt hwy.

*Cefnogaeth gan reolwyr a chraffter ariannol*

77. Roedd yn amlwg yn ystod trafodaethau gyda darparwyr bod cyflwyno sgiliau sylfaenol yn effeithiol, gyda llai o broblemau capasiti a mwy o ymgysylltu, yn debygol o ffynnu pan oedd uwch reolwyr sefydliadau yn cefnogi’r swyddogaeth sgiliau sylfaenol yn gryf o safbwynt addysgol, neu eu bod o leiaf yn ceisio datblygu cyllid sgiliau sylfaenol fel ffrwd incwm pwysig.

78. Fodd bynnag, yn chwech (o’r cyfanswm o 25) o gyfweliadau, adroddodd cydlynwyr sgiliau sylfaenol mai ychydig yn unig o ddiddordeb oedd gan eu huwch reolwyr mewn gweithgarwch sgiliau sylfaenol, eu bod yn methu yn achlysurol i glustnodi cyllid sgiliau sylfaenol, neu’n gwyro athrawon sgiliau sylfaenol rhan amser i mewn i feysydd galwedigaethol eraill.

79. Roedd ‘cyllid’ yn fater llawer pwysicach i’r sefydliadau hynny lle roedd llai o ymdrech, ac efallai llai o sgil wrth adnabod a chyrchu cyfleoedd cyllidol.

80. Nid yw’n hawdd gweld i ble mae’r sylwadau hyn yn arwain o safbwynt polisi. Gellid dadlau mai un ‘allwedd’ i wella capasiti sgiliau sylfaenol yw uwch reolwyr pwrpasol â diddordeb mewn sgiliau sylfaenol yn cefnogi cydlynwyr sgiliau sylfaenol gwybodus a rhagweithiol. Ac, wrth gwrs, byddai’r sefyllfa hon yn ddymunol ym mhob lleoliad a sefydliad. Fodd bynnag, byddai cost gyffredinol cefnogaeth sgiliau sylfaenol ar draws Cymru yn codi wrth i lefelau cyflwyno’r sefydliadau llai gweithgar godi i lefelau’r rhai mwyaf gweithgar. Gallai’r cwestiwn godi ynghylch pa weithgareddau dysgu eraill *na* chafodd eu cyllido er mwyn caniatáu’r ehangu hwn.

*Materion ariannu*

81. Mae llwyddiant unrhyw bolisi cyhoeddus yn dibynnu ar lefelau cyllido. Nid yw'n syndod, felly, bod darparwyr wedi trafod argaeledd cyllid fel cyfyngiad mewn amrywiol ffyrdd:

- Cyfyngu lefelau cyflog, ac felly, recriwtio a chadw.
- Mewn darparwyr DSW, yn benodol, gallai'r gofyniad i wneud elw sylweddol ar gyllid sgiliau sylfaenol gwtogi lefelau tâl.
- Argaeledd absoliwt cyllid fel cyfyngiad ar lefelau gweithgarwch.

82. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r hyn sydd efallai yn bryderon anochel am gyllid, mae'r broblem benodol o barhad cyllid. Gellir gweld y pryder yn nisgrifiadau ymatebwyr fel yr un canlynol:

> *'Lle mae'r cyflogwr wedi llofnodi Addewid y Cyflogwr byddant yn talu i'r tiwtor ddod i mewn a chyflwyno, felly rydych yn rhydd o gyfyngiadau'r cyllid achredu, sy'n wych. Bydd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol hefyd yn rhoi grantiau, ond mae'r cwbl mor ddarniog, a'r hyn yr ydw i'n ei gasáu am y math yna o ffrydiau cyllido yw y byddwch yn gwneud cynnydd gwych ac yn gwneud gwaith ardderchog ac yna byddan nhw'n dweud "reit stopiwch hynny nawr mae cronfa newydd gennym y mae'n rhaid i chi wneud cais iddi". Nid yw'n ymddangos eu bod yn adeiladu ar arfer da, sy'n rhwystredig iawn, oherwydd yr hyn sy'n cael ei ddweud yw "reit canslwch y cwbl nawr a gallwch ddechrau'r broses o'r dechrau unwaith eto".*

83. Fel y nodwyd yn gynharach, ceir pryderon hefyd ynghylch y canlynol:

- Cymhlethdod y cyllido gyda rhai darparwyr yn adrodd bod y prosesau ymgeisio a chyflwyno ceisiadau yn rhy gymhleth ac yn llyncu gormod o amser.
- Cyllid yn rhy aml yn cael ei gyfeirio at ddeunyddiau dysgu helaeth ac yn llai aml at ddatblygu staff a'r dysgwr.
- Yn cael ei gyfeirio'n rhy aml at allbynnau terfynol a'n rhy anaml at y 'cynnydd a wnaed' gan y dysgwr.

84. Efallai nad yw rhai o'r pwyntiau hyn wedi eu cyfeirio'n benodol at y mater o gapasiti, neu gallant fod yn gymwys i feysydd eraill cyllido dysgwyr, ond at ei gilydd maent yn rhwystro ac yn cymhlethu'r amgylchedd lle mae addysgu sgiliau sylfaenol yn digwydd a thrwy hynny yn rhwystro datblygiad cyson 'proffesiwn sgiliau sylfaenol' wedi'i ategu gan sicrwydd cyflwyno, cyflogau cystadleuol, a chyfleoedd ar gyfer cynnydd.

85. Efallai mai'r neges syml yw: dyrannwch fwy o gyllid i ddarparu sgiliau sylfaenol, ac os nad yw hynny'n bosib, dyrannwch y cyllid gyda mwy o sicrwydd hirdymor a llai o gymhlethdod. Yn y modd hwn, gellir adeiladu capasiti sgiliau sylfaenol ar sail lefelau cyllid hysbys ar gyfer y dyfodol a gyda llai o faich biwrocrataidd.

*Cymhlethdod trefniadaethol, partneriaeth a rhannu gwybodaeth*

86. Mae pryderon sylfaenol darparwyr am gymhlethdod, fodd bynnag, yn deimlad ehangach gan rai darparwyr nad yw'r strwythurau sy'n cyflwyno sgiliau sylfaenol yn gwbl gydlynus - sefyllfa sy'n tanseilio cynllunio hirdymor ac felly hefyd datblygu

gweithlu addysgu sgiliau sylfaenol sefydlog. Rhoddwyd disgrifiad beirniadol o'r mater hwn gan un darparwr AB:

> *'Nid oes cydlyniad mewn gwirionedd. Mae pethau'n digwydd mewn ffordd gydweithredol er gwaethaf y llywodraeth ganolog yn hytrach nag oherwydd y llywodraeth ganolog. Ar sail leol mae pethau'n digwydd er gwaethaf yr hyn y mae LlCC yn ei wneud. Mewn gwirionedd mae LlCC yn gwneud pethau'n waeth. Hynny yw, ar lefel sylfaenol, mae staff AADGOS yn iawn. Nid dyna'r broblem. Ar lefel sylfaenol maen nhw'n grêt. Mae angen i LlCC ddweud "Oce dyma'ch strwythur, rydym yn mynd i lynu ato", ac i'r adrannau yn LlCC stopio ymladd ei gilydd a dyfeisio polisi cytunedig a chydlynus, ac nid yw'n bodoli. Mae angen i LlCC ddweud ar sail ardal y bydd corff arweiniol i gyflwyno DOCh a Sgiliau sylfaenol. Gallai fod yn goleg, gallai fod yn Awdurdod Lleol. Byddech yn dod a'r holl arian sydd ar gael ar gyfer cyflwyno DOCh a Sgiliau Sylfaenol at ei gilydd. Byddech yn cynnwys arian Cymunedau'n Gyntaf, yn cynnwys arian Awdurdodau Lleol, yn cynnwys ystod gyfan o ffynonellau arian eraill, ESF, y loteri. Ac ar sail ardal byddwch yn nodi ble mae'r angen, a byddwch yn cyfeirio cyllid i ble bynnag y mae ei angen a bydd LlCC yn dweud wrth yr holl bartneriaid y byddant yn cydweithredu yn y trefniant hwnnw. A ydym wedi cael hynny? Nad ydym!''*

87. Mynegodd darparwr Coleg arall deimladau tebyg:

> *'Mae'n rhaid i addysgu sgiliau sylfaenol fod yn waith mae pobl yn dymuno anelu ato. Mae'n rhaid i'r gwobrwyon fod yna. Mae'n rhaid cael mwy o ymrwymiad o'r top i ddarparu'r gwasanaeth. Rydym mewn maes ansicr nawr bod Sgiliau Sylfaenol a ESOL yn cael eu rhoi i mewn gydag addysg gymunedol o dan DOCh o ran i ba gyfeiriad y gallem fod yn symud. Wrth gwrs, mae'r pwyslais nawr ar feddwl cydlynus a'r ddarpariaeth ac ati. Mae pob math o drafod allan yn y gymuned ynghylch a yw e'n mynd i fod yn un ddarpariaeth, a fyddwn yn edrych ar fwy o reolaeth drostyn nhw, a ydyn nhw'n mynd i gymryd drosodd gennym ni. Mae Ardal X yn gwneud pethau mewn un ffordd. Mae Coleg Y wedi ei wneud e mewn ffordd arall. Mae Ardal Z wedi ei wneud mewn ffordd arall. Mae'n ymddangos bod newid ar y gweill ac mae hynny'n creu ansicrwydd o safbwynt cynllunio.*

88. Efallai yn fwy calonogol, adroddodd ymatebydd arall bod datblygu partneriaeth ardal yn arwain at fwy o gydlyniad:

> *Ar draws y Bartneriaeth Ddysgu Ardal mae'r holl sefydliadau sy'n cyflwyno Sgiliau Sylfaenol yn dod ynghyd. Mae Grŵp Strategaeth, Grŵp Gweithredol ac ar draws y bartneriaeth rydym yn edrych am gyfleoedd i rannu arfer. Mae wedi dechrau mewn ffordd fach ond mae cydweithredu yn digwydd ar draws gwahanol sefydliadau, felly mae hynny'n ardderchog.'*

89. Yn gyffredinol, y neges yw bod rhai darparwyr o leiaf yn credu bod angen sylfaen sgiliau sylfaenol sefydlog a chydlynus a chynllunio ardal da er mwyn ategu unrhyw obaith o ddatblygu'r amgylchedd cyflwyno sgiliau sylfaenol mwy sefydlog fel syflaen i gynllunio gweithlu hirdymor.

**Crynodeb: safbwyntiau darparwyr allweddol ar ddatblygu capasiti sgiliau sylfaenol**

90. I grynhoi, mae cyfweliadau â darparwyr yn awgrymu ystod o safbwyntiau o safbwynt capasiti - yn amrywio o'r rheiny lle nad oes gan y darparwr anawsterau capasiti penodol oherwydd diffyg galw am ddysgu sgiliau sylfaenol neu oherwydd eu bod yn cyfyngu eu gweithgareddau i ofynion craidd yn unig i amgylchiadau lle mae diffyg

sylweddol mewn perthynas ag athrawon sgiliau sylfaenol yn gosod cyfyngiadau mawr ar y cyflwyno.

91. Yn y cyd-destun hwn, yr amgylchiadau a'r datblygiadau allweddol y mae darparwyr yn adrodd i amrywiol raddau fel pethau sy'n bwysig i gapasiti addysgu sgiliau sylfaenol yw:

- Capasiti mewnol cryf i feithrin a datblygu tiwtoriaid sgiliau sylfaenol o safon.
- Adeiladu ymwybyddiaeth sgiliau sylfaenol, asesu a/neu allu addysgu i mewn i ymarfer dysgu cyffredinol.
- Cael yr adnoddau a'r gefnogi i 'ymgorffori' ymwybyddiaeth, asesu a/neu allu addysgu sgiliau sylfaenol i mewn i fwy o athrawon pynciau galwedigaethol.
- Mentora a chefnogi athrawon sgiliau sylfaenol newydd.
- Cynnal cronfa hyblyg *leol* o diwtoriaid sgiliau sylfaenol rhan amser neu ddim oriau.
- Gwella'r cyflenwad o hyfforddiant sgiliau sylfaenol i athrawon (yn enwedig tuag at gymwysterau Lefel 3 newydd) – mwy o gyrsiau, amseru mwy hyblyg, wedi'u cefnogi'n ariannol, mwy o wybodaeth ar argaeledd.
- Cael uwch reolwyr sefydliadol sy'n ymrwymedig i ddatblygu sgiliau sylfaenol a chydlynwyr tîm sy'n arbenigwyr wrth gyrchu cyfleoedd cyllido.
- Cael cynllun cyllido sydd, waeth bynnag ei lefel gyffredinol, yn llai cymhleth ac yn fwy cyson nag y mae ar hyn o bryd.
- Cael strwythur polisi ar gyfer addysgu a dysgu sgiliau sylfaenol sy'n sefydlog ac sy'n sicrhau cydlyniad lleol.

# 3. Canfyddiadau dysgwyr o gyrsiau sgiliau sylfaenol

**Cyflwyniad: proses yr arolwg**

92. Yn ogystal â cheisio canfyddiadau darparwyr o faterion capasiti, ymgymerwyd ag arolwg o 200 o ddysgwyr sgiliau sylfaenol. Nod yr arolwg hwn oedd sefydlu i ba raddau yr oedd dysgwyr oedd wedi ymgymryd â chyrsiau sgiliau sylfaenol yn fodlon â hwy ac wedi elwa; ac, yn fwy penodol, a oedd unrhyw rai o'r effeithiau y gellid eu disgwyl o sefyllfa 'capasiti' cyfyngedig yng Nghymru yn amlwg i ddysgwyr.

93. Ymgymerwyd â'r arolwg dros y ffôn ym mis Ebrill a Mai 2006. Roedd y ffrâm sampl ar gyfer yr astudiaeth yn cynnwys rhestr o'r rheiny oedd wedi ymgymryd â chwrs sgiliau sylfaenol yng Nghymru yn ystod 2006/07. Rhoddwyd y rhestr hon i'r contractwr gan AADGOS ac fe'i tynnwyd o system cofnodion dysgwyr Cymru (LLWR).

94. Cyn yr arolwg, dansoddwyd y rhestr er mwyn disgrifio'r boblogaeth ddysgwyr yn ôl ei nodweddion cymdeithasol a demograffig. Yna sefydlwyd cwotas nad oeddent yn cydgloi ar gyfer sampl yr arolwg oedd yn cyfateb i'r nodweddion. Ceisiodd y sawl oedd yn cyfweld gaffael cyfweliadau i 'lenwi'r' cwotas a sefydlwyd, gan ddethol unigolion ar hap i gael eu cyfweld ond cyn belled â'u bod yn galluogi cwrdd â tharged cwota. Gwnaed hyd at 10 ymgais i gyfweld ag ymatebydd arfaethedig a ddewiswyd. Dangosir y canlyniadau isod:

**Tabl 3: Strwythurau cymdeithasol a demograffig y boblogaeth a sampl yr arolwg; canrannau**

| | Poblogaeth (y rhestr a gafwyd gan LLWR) % | Sampl (cyfweleion gwirioneddol) % |
|---|---|---|
| Gwryw | 53 | 52 |
| Benyw | 47 | 48 |
| | **100** | **100** |
| 16-24 oed | 68 | 46 |
| 25-44 oed | 22 | 37 |
| 45+ oed | 10 | 17 |
| | **100** | **100** |
| Canolbarth Cymru | 6 | 8 |
| Gogledd Cymru | 18 | 21 |
| D.Dd Cymru | 45 | 50 |
| D. Orll. Cymru | 27 | 21 |
| Ddim yn hysbys | 4 | 0 |
| | **100** | **100** |
| Gwledig | 26 | 27 |
| Trefol | 78 | 73 |
| | **100** | **100** |
| AB | 71 | 69 |
| DSW | 29 | 31 |
| | **100** | **100** |

95. Gellir gweld bod y broses hon wedi cyflawni canlyniadau cymharol gywir. Roedd anghysondeb y targed yn nhermau strwythur oed y sampl. Oherwydd lefel uchel iawn o ddiffyg argaeledd ymysg dysgwyr sgiliau sylfaenol iau mae strwythur oed y sampl rhywfaint yn 'hŷn' na'r boblogaeth. Fodd bynnag, nid yw archwilio canlyniadau'r

arolwg yn nhermau grŵp oed yr ymatebwyr yn awgrymu bod hyn yn effeithio ar ganlyniadau cyffredinol yr arolwg. Isod, dadansoddir eitemau data mawr yn ôl oed er mwyn gallu gweld unrhyw wahaniaethau oed arwyddocaol mewn perthynas â'r atebion.


96. Roedd gan yr holiadur (atodwyd) a ddefnyddiwyd fel sail i'r cyfweliadau fwyafswm o 25 o gwestiynau ac roedd yn cymryd tua 10 munud i'w gynnal. I grynhoi, roedd yn cwmpasu:

- Y cwrs(cyrsiau) sgiliau sylfaenol yr ymgymerwyd ag ef.
- Rhesymau dros fynd ar y cwrs.
- Anawsterau wrth ddod o hyd i gwrs, oedi wrth ddechrau, ac agweddau positif a negyddol eraill ar y profiad dysgu.
- A wnaeth y myfyriwr gwblhau'r cwrs, ac os na, y rhesymau dros hynny.
- Canlyniadau'r cwrs a'r gwerthfawrogiad cyffredinol o'i werth.

**Cyrsiau a ddilynwyd**

97. Pan ofynnwyd i fyfyrwyr pa gyrsiau yr oeddent wedi eu dilyn, roedd yn amlwg bod gorgyffwrdd eang mewn swyddogaeth gyda llawer o fyfyrwyr yn adrodd mai nod eu cyrsiau oedd gwella gwahanol agweddau ar lythrennedd (yn cynnwys ESOL) a rhifedd:


**Ffigur 1: Pa sgiliau oedd y cwrs neu'r cyrsiau i fod i'ch helpu gyda hwy? canrannau**




Sylfaen: Pob ymatebydd
Aml-ymateb

98. Roedd tua hanner y dysgwyr wedi dysgu mewn Coleg Addysg Bellach (gyda'r gyfran, sef 62%, ychydig yn uwch ar gyfer y rhai 16-24 oed):

**Ffigur 2: Lleoliad dysgu sgiliau sylfaenol; canrannau**





Sylfaen: Pob ymatebydd
Aml-ymateb

**Rhesymau dros fynd ar y cwrs**

99. Pan ofynnwyd i ymatebwyr pam aethant ar y cwrs, y rheswm a roddwyd amlaf o bell ffordd oedd bod ymatebwyr am wella eu sgiliau a'u bod wedi chwilio am gwrs er mwyn gwneud hynny. Fodd bynnag, ymddengys bod dysgwyr yn gor-ddweud rhywfaint ynghylch digymhelliant yr 'hunan-benderfyniad' a awgrymwyd yn yr ymateb hwnnw. Roedd y cwestiwn yn un 'aml-ateb' ac adroddodd canrannau sylweddol (yn gorgyffwrdd) o ymatebwyr eu bod hefyd wedi eu hannog gan ddarparwyr neu gyflogwyr neu fod yr elfen sgiliau sylfaenol wedi ei dilyn ochr yn ochr â chwrs astudio arall:

**Ffigur 3: Beth wnaeth eich annog i fynd ar y cwrs? canrannau**




Sylfaen: Pob ymatebydd
Aml-ymateb

100. O fewn y patrwm cyffredinol hwn:

- Roedd yr ymateb 'annog gan gyflogwr' yn fwy amlwg ar gyfer dysgwyr hŷn (45+) (18% yn erbyn cyfartaledd o 12%).
- Roedd yr ymatebion 'annog gan gyflogwr' ac 'annog gan ddarparwr hyfforddiant' yn fwy cyson ymysg dysgwyr DSW na dysgwyr AB (19% yn erbyn 8% a 53% yn erbyn 27% yn ôl eu trefn).

**Anhawster wrth ddod o hyd i gwrs**

101. Pan ofynnwyd iddynt a oedd yn anodd dod o hyd i gwrs addas yn yr ardal, dim ond 16% - tua 1 mewn 6 - dywedodd ei fod yn eithaf anodd neu'n anodd iawn.

102. Roedd y ddarpariaeth honno ychydig yn uwch ar gyfer:

- Dysgwyr 45 oed neu'n hŷn (dywedodd 22% eithaf anodd neu anodd iawn).
- Y rheiny oedd yn byw yng Ngogledd Cymru (dywedodd 24% eithaf anodd neu anodd iawn).

- Y dysgwyr hynny a ddysgodd gyda darparwr DSW (dywedodd 22% eithaf anodd neu anodd iawn o'u cymharu â 12% a ddysgodd mewn Coleg AB).

103. Ychydig yn unig o wahaniaeth oedd rhwng y gyfran o breswylwyr trefol (16%) a'r gyfran o breswylwyr gwledig (14%) – ac roedd y gwahaniaeth, a hynny efallai yn annisgwyl, o blaid y sefyllfa wledig.

104. Gofynnwyd i'r lleiafrif oedd *wedi* ei chael yn anodd dod o hyd i gwrs beth oedd yr anhawster. Oherwydd bod y sylfaen gyffredinol ar gyfer y rheiny ag anawsterau yn fach (27 o achosion yn unig) mae'r achosion o anhawster penodol yn fach mewn nifer ond maent yn cynnwys:

- Diffyg cyfleusterau addysgol (5 achos)
- Anawsterau cludiant/pellter (6 achos)
- Anawsterau yn deall Saesneg (2 achos)
- Anabledd (2 achos)
- Diffyg gwybodaeth ar gael (2 achos)

105. Roedd rhesymau eraill a roddwyd gan ymatebwyr unigol yn cynnwys: 'Byddai'n well gen i gael sesiynau un i un ac nid mewn grwpiau, ac roedd yn anodd dod o hyd i gwrs sy'n cynnig sesiynau un i un'; 'yr oriau dan sylw, a bod yn y gwaith'; 'nid oedd ganddynt y cwrs addas ar y pryd'; 'oherwydd fy oed'; 'mae'r cwrs yn gystadleuol, felly mae cael lle yn anodd'.

**Oedi wrth ddechrau'r cwrs**

106. Adroddodd saith ar hugain y cant o ddysgwyr eu bod wedi gorfod aros i'w cwrs ddechrau. Roedd y gyfran hon yn uwch i ddysgwyr gyda darparwyr DSW (arhosodd 37%) nag ar gyfer y rheiny gyda darparwyr AB (arhosodd 22%). Roedd (yn annisgwyl, efallai, o ystyried barn Estyn a nodwyd yn gynharach bod athrawon rhifedd, yn benodol, yn brin) yn is ar gyfer y rheiny ymgymerodd â mathemateg fel rhan o'u hastudiaethau neu eu hastudiaethau cyfan (arhosodd 19%) nag ar gyfer y rheiny na wnaethant hynny (arhosodd 30%).

107. Ac roedd yn uwch mewn ardaloedd trefol (arhosodd 29%) nac mewn ardaloedd gwledig (arhosodd 21%).

108. Fodd bynnag, nid oedd yr oedi yn arwyddocaol ar y cyfan. O'r rheiny arhosodd…

- Arhosodd 32% 1 neu 2 wythnos yn unig.
- Arhosodd 30% 3 neu 4 wythnos.
- Dim ond 26% arhosodd mwy na 4 wythnos.
- Nid oedd 11% yn gallu cofio pan mor hir oedd yr oedi.

109. Ar y cyfan, felly, dim ond 7% o'r sampl cyfan (yn cynnwys y rheiny nad oeddent wedi aros o gwbl) oedd wedi aros mwy na 4 wythnos i'w cwrs ddechrau.

110. Pan ofynnwyd iddynt pam oedd y cwrs wedi cael ei oedi (pan yr oedd hyn wedi digwydd), nad oedd 38% o'r ymatebwyr yn gwybod. O'r rhai oedd yn weddill:

- Dywedodd 23% fod dyddiad dechrau'r cwrs wedi'i bennu ac roedd rhaid iddynt aros tan y dyddiad hwnnw.
- Dywedodd 17% fod y cwrs ar yr adeg yr oeddent am ddechrau yn llawn a'u bod yn gorfod aros am yr un nesaf.
- Roedd yn rhaid i 9% orffen cwrs arall cyn dechrau'r un dan sylw
- Dywedodd 4% fod yn rhaid iddyn nhw aros i waith papur neu broses gofrestru gael ei chwblhau.

111. Efallai, mai'r ail yn unig o'r rhesymau hyn, sy'n effeithio ar lai na 5% o'r holl ymatebwyr, sy'n awgrymu'n glir gyfyngiad mewn capasiti ym mhatrwm cyffredinol y ddarpariaeth sgiliau sylfaenol.

**Maint y dosbarthiadau a chysondeb o ran yr athrawon**

112. Gallai maint y dosbarth fod yn ddangosydd arall o brinder capasiti. Mae barn gyffredinol fod sgiliau sylfaenol yn cael eu dysgu yn y ffordd fwyaf effeithiol mewn dosbarthiadau eithaf bach. Mae'r data yn awgrymu bod dysgwyr hŷn â'r rheiny a addysgir drwy ddarparwr Dysgu Seiliedig ar Waith rhywfaint yn fwy tebygol o bosib i fod mewn grwpiau llai:

**Tabl 4: Maint dosbarthiadau ar gyfer dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd; canrannau dysgwyr a addysgwyd mewn dosbarthiadau o wahanol feintiau**

| | 1-5 o bobl | 6-10 o bobl | 11 neu fwy o bobl | Ddim yn gwybod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarthiadau llythrennedd** | | | | | |
| 16-24 oed | 16 | 36 | 47 | 30 | 100 |
| 25-44 oed | 14 | 53 | 30 | 4 | 100 |
| 45+ oed | 29 | 36 | 32 | 4 | 100 |
| Coleg AB | 10 | 47 | 40 | 3 | 100 |
| Darparwr DSW | 25 | 41 | 33 | 2 | 100 |
| **Cyfanswm** | **15** | **45** | **38** | **2** | **100** |
| **Dosbarthiadau rhifedd** | | | | | |
| 16-24 oed | 17 | 42 | 39 | 2 | 100 |
| 25-44 oed | 19 | 49 | 29 | 3 | 100 |
| 45+ oed | 33 | 40 | 20 | 7 | 100 |
| Coleg AB | 15 | 48 | 35 | 2 | 100 |
| Darparwr DSW | 22 | 42 | 33 | 2 | 100 |
| **Cyfanswm** | **18** | **46** | **34** | **3** | **100** |

Sylfeini: 151 o ddysgwyr a gymerodd ran mewn dosbarth llythrennedd;
129 o ddysgwyr a gymerodd ran mewn dosbarth rhifedd

113. Nid oedd maint y dosbarth yn effeithio llawer ar a oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod yn derbyn digon o sylw personol yn y dosbarth. Dim ond 5% o ymatebwyr dywedodd nad oeddent yn ei dderbyn. Roedd y canran hwn yn amrywio dim ond rhwng 3% (lle roedd dosbarthiadau rhywfaint yn llai) a 6% mewn Colegau AB (lle roedd dosbarthiadau rhywfaint yn fwy).

114. Fodd bynnag, mae awgrym yn y data y gallai maint dosbarthiadau fod yn gysylltiedig â chwblhau (hy peidio â gadael yn gynnar) ac allbynnau:

**Tabl 5: Perthynas rhwng maint dosbarthiadau a chwblhau, a rhwng maint dosbarthiadau ac ennill cymhwyster; canrannau**

| | Maint dosbarthiadau | | |
|---|---|---|---|
| | **1-5 o bobl** | **6-10 o bobl** | **11+ o bobl** |
| Cwblhau cwrs llythrennedd | 68 | 82 | 72 |
| Cwblhau cwrs rhifedd | 83 | 81 | 80 |
| Ennill cymhwyster/tystysgrif mewn llythrennedd | 87 | 71 | 70 |
| Ennill cymhwyster/tystysgrif mewn rhifedd | 86 | 76 | 65 |

Sylfeini: 151 o ddysgwyr a gymerodd ran mewn dosbarth llythrennedd;
129 o ddysgwyr a gymerodd ran mewn dosbarth rhifedd

115. Nid yw'r data hyn yn gwbl gyson (nid yw'r data 'cwblhau cwrs llythrennedd' yn unol â'r dangosyddion eraill) ond gall awgrymu bod mewn dosbarth mwy yn tueddu i gysylltu â diffyg cwblhau a diffyg cymhwyso.

116. Gallai cael un neu fwy newid o ran athro yn ystod y cwrs adlewyrchu'r pwysau ar gapasiti hefyd. Adroddodd 19% o ddysgwyr ar y cyfan - 1 mewn 5 - newid mewn athro. Roedd y canran hwn yn uwch mewn ardaloedd trefol (22%) nac mewn ardaloedd gwledig (11%). Mae hyn efallai yn adlewyrchu yr hyn a awgrymwyd gan un darparwr gwledig o leiaf yn y trafodaethau â'r darparwyr - bod cyfleoedd i athrawon sgiliau sylfaenol i symud o gwmpas yn llai niferus mewn ardaloedd gwledig a bod hyn yn hybu sefydlogrwydd y gweithlu.

117. Eto, mae'r data yn awgrymu y gallai newidiadau mewn athrawon fod yn gysylltiedig â chwblhau cyrsiau. Cwblhaodd 81% o ddysgwyr mewn dosbarthiadau lle roedd yr addysgu yn gyson y cwrs, lle mai 68% o ddysgwyr yn unig mewn dosbarthiadau lle newidiodd yr athro arhosodd tan ddiwedd y cwrs.

118. Pan ofynnwyd yn uniongyrchol iddynt a oedd newid mewn athro wedi achosi problem, ac amharu ar lif y dysgu, dywedodd tri chwarter (76%) o'r rheiny oedd wedi profi newid mewn athro *nad oedd* hynny wedi digwydd - tra bod 14% yn dweud ei bod yn broblem fawr ac 11% yn dweud ei bod yn broblem fach. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n dweud ei bod yn broblem o gwbl yn cynrychioli llai na 5% o'r sampl cyfan (pan ystyrir y rheiny nad oedd eu hathrawon wedi newid hefyd).

## Canfyddiadau dysgwyr o ansawdd y cwrs

119. Yna gofynnwyd i ddysgwyr mewn amrywiol ffyrdd i fynegi eu barn ar ansawdd y cwrs(cyrsiau) yr oeddent wedi ymgymryd â hwy:

- Pa mor dda yr oeddent yn graddio eu tiwtoriaid ar nifer o agweddau.
- Ansawdd cyffredinol yr addysgu
- Pa mor dda y rheolwyd rhai agweddau ar y ddarpariaeth gan eu darparwr dysgu.

120. Mewn perthynas ag agweddau unigol ar berfformiad eu tiwtor, gofynnwyd i ymatebwyr roi gradd i bob un ar raddfa 10 pwynt. Yn y tabl canlynol, disgrifir sgôr

rhwng 7 a 10 yn 'dda'; disgrifir sgôr rhwng 4 a 6 yn 'ganolradd'; disgrifir sgôr rhwng 1 a 3 yn 'wael'. Gan ddefnyddio'r raddfa hon, gellir gweld bod rhan fwyaf o raddau'r dysgwyr yn sicr ar ben positif y raddfa:

**Tabl 6: Graddau dysgwyr ar agweddau unigol perfformiad eu tiwtoriaid (canrannau) a graddau cyfartalog (cymedr)**

| | Gwael % | Canolradd % | Da % | Gradd gyfartalog |
|---|---|---|---|---|
| Gallu i egluro'r pwnc | 1 | 13 | 85 | 8.5 |
| Gwrando ar eich anghenion | 2 | 11 | 87 | 8.5 |
| Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n llawn mwynhad i chi | 4 | 14 | 81 | 8.1 |
| Eich deall chi a sut yr ydych yn hoffi dysgu | 2 | 15 | 82 | 8.3 |
| Y gefnogaeth a roddwyd i chi, er enghraifft, wrth wella eich technegau dysgu neu reoli amser | 1 | 13 | 85 | 8.5 |
| Gwneud defnydd da o amser yn y sesiynau | 1 | 12 | 86 | 8.3 |
| Ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu a roddwyd i chi | 3 | 16 | 81 | 8.2 |
| Gosod targedau neu nodau dysgu clir i'ch helpu i wella | 2 | 14 | 84 | 8.3 |
| Cynnig adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd | 3 | 11 | 85 | 8.3 |

Sylfaen: Pob ymatebydd
Noder: Ac eithrio atebion 'ddim yn gwybod' hyd at fwyafswm o 2% ar gyfer pob categori

121. O fewn y darlun cyfan o foddhad â pherfformiad tiwtoriaid ychydig yn gymharol o amrywiad a gafwyd. Fodd bynnag….

- Roedd boddhad dysgwyr iau yn tueddu i fod yn is. Roedd graddau 'da' gan bobl 16-24 oed yn tueddu i fod yn yr ystod 70%-80% ar gyfer pob agwedd lle roeddent ar y cyfan yn yr ystod 80%-90% ar gyfer myfyrwyr hŷn.
- Roedd lefelau boddhad yn tueddu i fod 5%-15% yn uwch i fenywod nag i ddynion.

**122.** Roedd y graddau 'agweddau unigol' hyn yn parhau yn asesiadau o ansawdd *cyffredinol* yr addysgu a dderbyniwyd, a hynny heb fod yn annisgwyl. Nododd dros 8 allan o 10 o'r dysgwyr ansawdd cyffredinol yr addysgu yn eithaf da neu'n dda iawn ond gyda graddau ychydig yn is gan ddynion na chan fenywod a gyda boddhad dysgwyr yn cynyddu gydag oed:

**Tabl 7: Boddhad cyffredinol dysgwyr ag ansawdd yr addysgu yr oeddent yn ei dderbyn**

| | Eithaf gwael neu wael iawn | Niwtral | Eithaf da neu dda iawn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwryw | 2 | 17 | 81 | 100 |
| Benyw | 2 | 9 | 89 | 100 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16-24 oed | 2 | 21 | 77 | 100 |
| 25-44 oed | 2 | 6 | 92 | 100 |
| 45+ oed | 2 | 1 | 97 | 100 |
| **Cyfanswm** | **2** | **13** | **85** | **100** |

Sylfaen: Pob ymatebydd

123. Pan ofynnwyd yn benodol am ansawdd y deunyddiau dysgu a ddefnyddiwyd ar y cwrs (gwerslyfrau, taflenni, taflenni gwaith ac ati) cafwyd barn bositif yn gyffredinol unwaith eto. Dywedodd 82% eu bod yn dda neu'n dda iawn, dywedodd 13% eu bod yn 'gyfartalog' (ddim yn dda nac yn wael), a dim ond 5% dywedodd eu bod yn 'eithaf gwael' (3%) neu'n 'wael iawn' (2%). Esboniodd yn eu tro y nifer bach iawn o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn eithaf gwael neu'n wael iawn (dim ond 9 achos): na roddwyd unrhyw werslyfrau iddynt; dim ond taflenni wedi'u llungopïo a ddosbarthwyd; roedd yn rhaid iddynt brynu'r deunyddiau eu hunain; roedd y deunydd yn hen ffasiwn; neu roedd yn rhaid iddynt gael y deunyddiau o'r rhyngrwyd.

124. Yn ogystal â gofyn am ansawdd yr addysgu a deunyddiau'r cwrs, gofynnwyd hefyd i ddysgwyr pa mor dda yr oedd y coleg neu'r darparwr dysgu yn ymdrin â nifer o faterion, eto gan ddefnyddio graddfa 10 pwynt. Eto, roedd rhan fwyaf yr ymatebion yn bositif ond gallai fod rhai pryderon, yn enwedig ynghylch cael digon o athrawon. O fewn y data (nid yw'r ffigurau wedi'u nodi yma) roedd tueddiad i ddynion a phobl ifanc fod yn llai bodlon ar bob agwedd ond nid oedd y gwahaniaethau'n ddigon i newid y darlun cyffredinol o un lle mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn yr holl grwpiau yn fodlon ar reolaeth y cwrs:

**Tabl 8: Graddau ymatebwyr ynghylch datganiadau penodedig am sut roedd materion yn cael eu rheoli yn eu Coleg neu eu darparwr dysgu; canrannau a sgoriau cyfartalog**

| | **Gwael %** | **Canolradd %** | **Da %** | **Gradd gyfartalog** |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod digon o diwtoriaid ar gael | 6 | 12 | 80 | 8.2 |
| Darparu cefnogaeth pan oedd problemau gennych chi neu ddysgwyr eraill | 3 | 8 | 88 | 8.5 |
| Helpu pobl newydd i ymgartrefu | 1 | 8 | 88 | 8.7 |
| Rheoli amserlenni fel eu bod yn gweddu i'r dysgwyr cyn belled ag y bo'n bosib | 2 | 13 | 83 | 8.4 |
| Cyfathrebu newidiadau mewn amseroedd gwersi | 3 | 11 | 83 | 8.3 |

Sylfaen: Pob ymatebydd
Noder: Ac eithrio atebion 'ddim yn gwybod' hyd at fwyafswm o 3% ar gyfer pob agwedd

### Cwblhau

125. Pan ofynnwyd yn uniongyrchol i ddysgwyr a oeddent wedi cwblhau'r cwrs neu wedi gadael yn gynnar, roedd y mwyafrif, 78%, wedi ei gwblhau tra bod 22% wedi gadael yn gynnar:

**Tabl 9: Graddau cwblhau ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr; canrannau**

| | Cwblhau | Gadael yn gynnar | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gwryw | 69 | 31 | 100 |
| Benyw | 88 | 12 | 100 |
| 16-24 oed | 70 | 30 | 100 |
| 25-44 oed | 85 | 15 | 100 |
| 45+ oed | 91 | 9 | 100 |
| Canolbarth Cymru | 88 | 12 | 100 |
| Gogledd Cymru | 81 | 19 | 100 |
| D.Dd. Cymru | 75 | 25 | 100 |
| D. Orll. Cymru | 80 | 20 | 100 |
| Trefol | 76 | 24 | 100 |
| Gwledig | 85 | 15 | 100 |
| Coleg AB | 79 | 21 | 100 |
| Darparwr DSW | 76 | 24 | 100 |
| Saesneg | 76 | 24 | 100 |
| Mathemateg | 81 | 19 | 100 |
| **Cyfanswm** | **78** | **22** | **100** |


Sylfaen: Pob ymatebydd

126. Mae'r data hyn yn dangos bod cyfraddau cwblhau yn tueddu i fod yn *is* ar gyfer:

- Dynion
- Dysgwyr ifanc
- Y rheiny mewn ardaloedd trefol (felly ar gyfer preswylwyr yn Ne Ddwyrain Cymru)
- Y rheiny ar gyrsiau llythrennedd yn hytrach na rhifedd

127. Pan ofynnwyd i'r rhai a adawodd yn gynnar pam y digwyddodd hynny, roedd y prif resymau a nodwyd fel a ganlyn:

**Ffigur 4: Rhesymau dros adael yn gynnar; canrannau y rhai sy'n gadael yn gynnar yn rhoi pob rheswm**



Sylfaen: 43 ymatebydd a adawodd y cwrs yn gynnar

[Translation for above chart – could not fit all the Welsh in when trying to edit the picture]

Colli diddordeb
Y cwrs yn rhy anodd
Nid oedd y cwrs yr hyn yr oeddwn yn ei ddisgwyl
Diddymwyd y cwrs
Wedi cael swydd/swydd newydd
Amgylchiadau personol wedi newid
Arall
Yn dal i fod ar y cwrs

128. Roedd rhesymau eraill a nodwyd gan ymatebwyr unigol yn cynnwys: 'Roeddwn am fynd i mewn i TG yn lle'; 'roedd yn rhy ddrud'; 'y diffyg cefnogaeth a dderbyniwyd'; 'problemau meddygol'; 'ymrwymiadau gwaith'; 'newidiodd yr athro ac nid oedd yr un newydd cystal â'r hen un'; 'roeddwn i eisoes wedi dysgu rhan fwyaf y stwff, felly penderfynais adael'; 'nid oeddwn yn gallu gorffen y cwrs oherwydd roedd apwyntiadau gyda fi'; 'roeddwn yn disgwyl babi'.

129. Yn gryno, felly, mae'r data cwblhau a 'rhesymau dros adael' yn dangos:

- Dim ond pumed ran o'r dysgwyr methodd â chwblhau eu cwrs.
- Roedd y rheiny a adawodd wedi gwneud hynny am resymau nad oeddent yn gysylltiedig ag ansawdd neu amgylchiadau'r ddarpariaeth. Dim ond 3 dysgwr a adawodd oherwydd cwynion uniongyrchol am y ddarpariaeth. Roedd tua 6 arall yn teimlo nad oedd y cwrs yr hyn yr oeddent wedi'i ddisgwyl, yn rhy ddrud, yn rhy anodd ac ati – gan awgrymu methiant o ran *gwybodaeth* yn hytrach na methiant o ran y ddarpariaeth.
- Yn gyffredinol, gadawodd 80% o'r rheiny a adawodd yn gynnar o ganlyniad i ffactorau nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cwrs ond llawer mwy ag amgylchiadau ac agweddau dysgwyr.

**Ennill cymwysterau**

**130.** Adroddodd 73% o'r dysgwyr eu bod wedi ennill cymhwyster neu dystysgrif ysgrifenedig o ganlyniad i gymryd rhan yn eu cwrs llythrennedd neu rifedd. Roedd cyfraddau cyflawniad yn uwch ar gyfer menywod, dysgwyr hŷn, dysgwyr gwledig, a'r rheiny oedd yn cymryd rhan drwy raglen DSW. Nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng cyfranogwyr cyrsiau llythrennedd a rhifedd:

**Tabl 10: Caran y dysgwyr sy'n ennill cymhwyster neu dystysgrif ysgrifenedig o ganlyniad i gymryd rhan mewn sgiliau sylfaenol**

| | % yn ennill |
|---|---|
| Gwryw | 69 |
| Benyw | 78 |
| 16-24 oed | 73 |
| 25-44 oed | 73 |
| 45+ oed | 79 |

| | |
|---|---|
| Trefol | 76 |
| Gwledig | 72 |
| Coleg AB | 70 |
| Darparwr DSW | 79 |
| Saesneg | 74 |
| Mathemateg | 74 |
| **Cyfanswm** | **73** |

Sylfaen: Pob ymatebydd


131. Roedd tua 4 allan o 10 dysgwr oedd wedi ennill cymwysterau yn methu â nodi Lefel y cymhwyster a enillwyd ond….

- dywedodd 23% ‘Lefel 1’
- dywedodd 20% ‘Lefel 2’
- dywedodd 12% ‘Lefel 3’
- Awgrymodd 13% raddau eraill sy’n eithaf anodd eu dehongli yn nhermau lefelau safonau fel ‘lefel llwyddo’, ‘tystysgrif’, ‘canolradd’.

**Manteision cymryd rhan**

132. Yn ogystal â chymwysterau, gofynnwyd i ddysgwyr a oeddent wedi ennill pob un o restr o fanteision posib. Dangosir y cyfrannau oedd yn dweud eu bod wedi gwneud hynny yn y siart canlynol:

**Ffigur 5: Manteision cymryd rhan mewn dysgu sgiliau sylfaenol; canrannau**



Sylfaen: Pob ymatebydd

[Translation for the above chart]

Yn gallu ymdopi'n well â rhai tasgau sy'n gofyn am sgiliau Saesneg/Mathemateg

Yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio Saesneg/Mathemateg

Wedi mwynhau cwrdd â phobl ac agweddau cymdeithasol astudio ar y cwrs(cyrsiau)

Yn gallu astudio pynciau eraill yn well o ganlyniad

Yn helpu astudio y gallwn fod yn dymuno ei wneud yn y dyfodol

Wedi fy helpu yn fy swydd bresennol

Wedi fy helpu i gael swydd/swydd well

Bydd yn fy helpu i gael swydd yn y dyfodol


133. Mae'r rhain yn amlwg yn ganlyniadau positif iawn sy'n datgelu amrywiaeth o fanteision agweddol, cymdeithasol a chyflogaeth.

134. Pan ofynnwyd iddynt, mewn cwestiwn 'agored', a oeddent wedi derbyn unrhyw fanteision eraill, dywedodd un ar bymtheg y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi gwneud hynny. Er enghraifft…….

- Gwell lefel o hyder yn gyffredinol (13 ymatebydd).
- Sgiliau mathemateg neu Saesneg wedi gwella yn gyffredinol (9 ymatebydd).
- Gwell sgiliau TG (2 achos)
- Yn gallu helpu eu plant gyda'u mathemateg a'u Saesneg (2 achos).

135. Yn olaf, pan ofynnwyd iddynt roi barn gryno gyffredinol am y cwrs(cyrsiau) a ddilynwyd, rhoddodd rhan fwyaf y dysgwyr asesiadau positif:

**Ffigur 6: Barn gyffredinol dysgwyr am eu profiadau dysgu sgiliau sylfaenol; canrannau**



Sylfaen: Pob ymatebydd

[Translation for chart]

Mae'r cwrs(cyrsiau) wedi bod yn help mawr i mi ac rwy'n gosod gwerth uchel ar y profiad

Roedd y cwrs(cyrsiau) yn eithaf defnyddiol ac ar y cyfan rwy'n falch i mi gymryd rhan

Roedd y cwrs(cyrsiau) yn iawn ond nid yw wedi gwneud llawer o wahaniaeth i mi

Roedd y cwrs(cyrsiau) yn wastraff amser ac ni wnaeth gyflawni unrhyw beth

136. Mae'r tabl isod yn rhannu'r asesiadau hyn ar gyfer gwahanol grwpiau:

**Tabl 11: Barn gyffredinol gwahanol grwpiau o ddysgwyr am eu profiadau dysgu sgiliau sylfaenol; canrannau**

| | **Help mawr** | **Eithaf defnyddiol/ balch fy mod wedi cymryd rhan** | **Iawn ond heb wneud llawer o wahaniaeth** | **Gwastraff amser** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwryw | 47 | 45 | 8 | 0 | 100 |
| Benyw | 54 | 35 | 7 | 3 | 100 |
| 16-24 oed | 47 | 43 | 8 | 2 | 100 |
| 25-44 oed | 53 | 38 | 8 | 1 | 100 |
| 45+ oed | 58 | 36 | 3 | 1 | 100 |
| Trefol | 42 | 39 | 8 | 1 | 100 |
| Gwledig | 47 | 43 | 6 | 4 | 100 |
| Coleg AB | 54 | 37 | 8 | 2 | 100 |
| Darparwr DSW | 44 | 48 | 8 | 0 | 100 |
| Saesneg | 48 | 42 | 9 | 1 | 100 |
| Mathemateg | 57 | 36 | 6 | 2 | 100 |
| **Cyfanswm** | **51** | **40** | **8** | **2** | **100** |

Sylfaen: Pob ymatebydd

137. Gellir gweld bod gan bob grŵp o ddysgwyr ganfyddiadau positif ond maent rywfaint yn fwy positif ar gyfer:

- Menywod
- Dysgwyr 45 oed a hŷn
- Dysgwyr trefol
- Dysgwyr Coelgau AB

- Dysgwyr Rhifedd

**Pwyntiau allweddol: arolwg o ddysgwyr**

138. Gellir disgrifio'r arolwg o 200 o ddysgwyr fel un o faint canolig ond mae ei ganlyniadau mor eglur ni fyddai mewn gwirionedd wedi bod yn broffidiol cynnal un mwy o faint.

139. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau yn bositif iawn:

- Dim ond 1 mewn 6 o ddysgwyr gafodd anhawster dod o hyd i gwrs ac roedd y prif anhawster yn ymwneud â phellter unigolion o'r cyfleusterau yn hytrach na diffyg cyrsiau fel y cyfryw.
- Dim ond 7% o'r sampl oedd wedi aros mwy na 4 wythnos i ddechrau cwrs sgiliau sylfaenol.
- Rhoddodd llai na 5% o'r dysgwyr esboniad am yr oedi y gellid ei briodoli'n uniongyrchol i gapasiti ('roedd y cwrs yn llawn').
- Rhoddodd dros 8 allan o 10 o'r dysgwyr asesiadau positif o allu eu hathrawon.
- Rhoddodd dros 8 allan o 10 o'r dysgwyr asesiadau positif o'r deunyddiau dysgu yr oeddent wedi'u defnyddio.
- Rhoddodd dros 8 allan o 10 o'r dysgwyr asesiadau positif o reolaeth gwahanol agweddau ar eu cyrsiau.
- Cwblhaodd bron i 8 allan o 10 o'r dysgwyr eu cwrs.
- Roedd diffyg cwblhau yn cael ei gysylltu llawer mwy ag amgylchiadau dysgwyr na gyda'r cwrs neu faterion capasiti.
- Enillodd bron i dri chwarter y dysgwyr gymhwyster neu dystysgrif.
- Adroddodd gyfrannau uchel o ddysgwyr fanteision cymdeithasol, agweddol neu gyflogaeth.
- Rhoddodd 9 allan o 10 o'r dysgwyr asesiadau cyffredinol positif am eu profiad dysgu.

140. Yr unig ddangosyddion sy'n lled awgrymu cyfyngiadau capasiti oedd:

- Addysgwyd 38% o ddysgwyr llythrennedd a 34% o ddysgwyr rhifedd mewn dosbarthiadau o 11 neu fwy o faint. Roedd rhai dangosyddion bod dosbarthiadau o'r maint hyn yn gysylltiedig â diffyg cwblhau a diffyg cymhwyso.
- Roedd 19% o ddysgwyr wedi profi newid athro yng nghanol eu cwrs a dywedodd chwarter o'r rhain (tua 1 mewn 20 o'r sampl cyfan) bod hyn wedi bod yn broblem i ryw raddau. Mae data'n awgrymu bod newid athro yn gysylltiedig â diffyg cwblhau.

141. Yn gyffredinol, felly, mae'r arolwg dysgwyr yn awgrymu pa bynnag broblemau sy'n bodoli maent ar y cyfan yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n gadael cyfran fwyaf y dysgwyr â theimlad o foddhad yn eu profiadau dysgu sgiliau sylfaenol. Effeithiau

ymylol yn unig y caiff unrhyw broblemau capasiti ar brofiadau dysgwyr ac ychydig yn unig o ymatebion negyddol y maent yn eu cynhyrchu.

# 4. Trafodaeth

142. Yn gyffredinol, mae'r astudiaeth yn datgelu darlun o gyflwyno sgiliau sylfaenol yng Nghymru efallai y gellir ei ddisgrifio orau fel cymhlethdod a reolir. Mae ffynonellau'r cymhlethdod yn cynnwys:

- *Cymhlethdod cyflwyno* - yn ôl Colegau AB, darparwyr DSW, mudiadau'r sector gwirfoddol; mewn lleoliadau amrywiol (Colegau, eiddo cwmnïau hyfforddi preifat, cyfleusterau cymunedol, eiddo cyflogwyr); i grwpiau cymdeithasol economaidd lluosog (y mae llawer ohonynt yn awgrymu anfantais); cyrsiau llythrennedd, rhifedd ac ESOL ar ystod o lefelau a tuag at ystod o gymwysiadau; gan athrawon a gyflogir ar ystod o delerau contractio yn amrywio o gontractau parhaol llawn amser i gontractau dim oriau ansicr (ac sydd, yn eu lefel sgiliau, yn amrywio o gynorthwywyr cefnogi dysgu gydag ychydig, os o gwbl, o gymwysterau perthnasol, i bobl â graddau ôl-raddedig mewn anhawster dysgu) neu gan wirfoddolwyr; o sgiliau nad ydynt wedi eu gwahaniaethu'n glir bob amser (roedd 'sgiliau allweddol', 'sgiliau sylfaenol', 'sgiliau hanfodol' a 'sgiliau ymarferol' yn dermau a ddefnyddiwyd i wahanol raddau gan ddarparwyr heb fod yn gwbl eglur ynghylch y bwriad); y mae ei ddatblygu yn cael ei gyllido gan amrywiol ffynonellau (gan LlCC, ESF, cyflogwyr) neu weithiau'n cael ei gyflwyno ond nid ei gyllido'n benodol (er mwyn caniatáu i ddysgwyr ar gyrsiau eraill i lwyddo); mewn amgylchiadau lle addysgir datblygu sgiliau sylfaenol i wahanol raddau 'ar y dechrau' mewn dosbarthiadau llythrennedd neu rifedd neu ESOL ond gallai hefyd gael ei 'ymgorffori' (weithiau ei guddio) o fewn neu ochr yn ochr â mathau eraill o gyrsiau (fel TG neu bwnc galwedigaethol); gan sefydliadau y gall eu rheolwyr amrywio'n sylweddol yn eu brwdfrydedd ar gyfer yr agenda sgiliau sylfaenol; ac y gallai fod yn gysylltiedig ai peidio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chyflwyno sgiliau sylfaenol yn yr un ardal.
- *Newid ac ansicrwydd* – gofynion newydd ar ddarparwyr: i gymhwyso eu staff; i symud tuag at integreiddio sgiliau allweddol a rhaglenni sgiliau sylfaenol; i ymdopi gydag anghenion amrywiol carfan o fewnfudwyr; i gyflwyno dysgu sydd â chyllid ansicr neu y mae'r trefniadau cyllido ar ei gyfer yn newid; ac i gynnig darpariaeth y mae'r lefel o alw (mewn lleoliadau cymunedol a chyflogwyr yn benodol) yn anodd ei ragweld.

143. Cyfaddefodd sawl darparwr mai gwybodaeth gyfyngedig yn unig oedd ganddynt o'r darlun sgiliau sylfaenol cyfan a/neu nad oeddent yn deall yn llawn y newidiadau sy'n digwydd neu y'u rhagwelwyd mewn cyllid, gofynion cymwysterau a manylebau, ac ati.

144. Yn yr amodau hyn, mae timau sgiliau sylfaenol yn wynebu her i ddarparu gwasanaeth sgiliau sylfaenol dichonol lle mai un newidyn yn unig yw capasiti addysgu sydd wedi'i gysylltu â sawl un arall, y mae amrywiadau neu ansicrwydd ynghylch galw gan ddysgwyr, disgwyliadau ac uchelgeisiau uwch reolwyr, a lefelau ac argaeledd cyllid yn arbennig o bwysig.

145. Mae'r arolwg dysgwyr a ymgymerwyd fel rhan o'r astudiaeth hon yn dangos, yn nhermau'r dysgwyr sy'n ymuno â chyrsiau sgiliau sylfaenol, bod yr her hon yn cael ei hateb yn dda. Roedd y dysgwyr bron i gyd yn hapus iawn â'r hyfforddiant sgiliau

sylfaenol yr oeddent yn ei dderbyn ac roedd y rhan fwyaf yn cydnabod eu bod yn cael manteision cymdeithasol a chyflogaeth gwirioneddol ohono.

146. Sut y cyflawnir hyn? Mae dwy strategaeth sylfaenol. Y gyntaf yw'r un 'minimalaidd' lle mae sefydliadau yn cymryd safbwynt di-fenter, gan gyfyngu'r ddarpariaeth sgiliau sylfaenol yn bennaf i'r addysgu sgiliau sylfaenol 'prif-ffrwd' sydd ei angen i alluogi myfyrwyr AB neu'r rheiny ar gyrsiau Dysgu Seiliedig ar Waith i gynyddu, gan fentro'n anaml i fyd darpariaeth gymunedol neu gyflogwyr. Mae'r ail strategaeth yn llawer mwy rhagweithiol. Mae'n ceisio ysgogi neu ymateb i alw lle bynnag y mae'n codi, i fwyafu cyllid drwy ddefnyddio'r holl ffynonellau sydd ar gael, ac yn gyffredinol i fod yn 'geffyl blaen' yn y maes sgiliau sylfaenol.

147. O dan y ddwy strategaeth, fodd bynnag, mae angen cynnal y capasiti addysgu ar lefel angenrheidiol hwn, p'un ai yw hynny'n llai neu'n fwy. Mae nifer o 'arferion da' yn hwyluso hyn:

- Mae cael a chynnal y capasiti mewnol i feithrin a datblygu staff tuag at lefelau uwch o sgiliau a phrofiad yn amlwg yn fuddiol iawn. Mae'n fwy tebygol y bydd y capasiti hwn i'w weld mewn Colegau AB mwy o faint nac yn y rhai llai neu mewn darparwyr DSW neu sefydliadau gwirfoddol.
- Lle bynnag y bo'n bosib, annog a datblygu athrawon pynciau eraill, y tu allan i'r tîm sgiliau sylfaenol, i'w galluogi i adnabod a mynd i'r afael a chyfyngiadau sgiliau sylfaenol eu myfyrwyr.
- Mae rheolwyr sy'n gosod gwerth ar y swyddogaeth sgiliau sylfaenol ac yn ei chefnogi, ac sy'n annog yr holl staff addysgu i gymryd rhan mewn, a chael gwerthusiad positif o anghenion sgiliau sylfaenol hefyd yn ffactor pwysig, ac o bosib yn un hollbwysig.
- Mae cael yr adnoddau, yr amser a'r cymhwysedd i dorri trwy'r rhwystr 'dryswch' hefyd yn ased cryf – nodir a defnyddir cyfleoedd cyllido a hyfforddiant yn fwy trylwyr a chyson.
- Mae datblygu ethos tîm cryf sy'n helpu i gadw staff, hyd yn oed y rheiny sy'n addysgu am ychydig o oriau'r wythnos yn unig, yn bwysig. Un o'r ffactorau sy'n cynorthwyo timau sgiliau sylfaenol i gwrdd ag amrywiaeth yn y galw a digwyddiadau annisgwyl yw cynnal nifer digonol o athrawon a all ac a fydd yn cynyddu eu horiau yn ôl y galw. I'r gwrthwyneb, mae cyfradd uchel o ymddeoliadau, wrth i staff sy'n bennaf yn fenywaidd ac yn aeddfed adael addysgu sgiliau sylfaenol, yn ffactor sy'n herio'r darparwyr yn gynyddol i gynnal lefelau addysgu.
- Yn yr un modd, mae mentora recriwtiaid newydd i'r gweithlu sgiliau sylfaenol (arfer cyffredin) yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw athrawon newydd yn cael eu colli'n gyflym.
- Ac mae eglurder gwybodaeth ar dâl – yn sicrhau bod recriwtiaid yn deall o'r dechrau bod disgwyliadau o fewn y cyfraddau addysgu fesul awr ynghylch mynychu cyfarfodydd, marcio a pharatoi – yn osgoi cael athrawon anfodlon yn gadael oherwydd nad ydynt wedi deall yn iawn nad yw'r gyfradd a hysbysebir o reidrwydd yr hyn y mae'n ymddangos i ddechrau.

148. Yn ei hanfod, felly mae capasiti addysgu sgiliau sylfaenol yn cael ei gynnal gan gyfres o arferion rheoli adnoddau dynol y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hystyried yn arfer da mewn sefyllfaoedd cyflogaeth eraill. Cafodd yr ymchwil, mewn achosion lle roedd yr arferion hyn yn wan neu'n absennol bod staff yn fwy tebygol o fod yn anfodlon, yn fwy beirniadol o strwythurau gyrfa gwael ac uwch reolwyr, ac ati.

149. I gefnogi'r arferion da hyn, mae rhai nodweddion ychwanegol y byddai darparwyr yn eu gwerthfawrogi yn cynnwys:

- Mwy o argaeledd o ran hyfforddiant tuag at y cymhwyster addysgu sgiliau sylfaenol Lefel 3 (yn enwedig, wrth gwrs, y tu allan i'r sefydliadau hynny sy'n gallu ei gyflawni ei hunain).
- Ei ddarparu mewn fformatau amser hyblyg lle nad oes angen i sawl aelod o staff ymgymryd â'r hyfforddiant ar yr un pryd.
- Cefnogaeth gyson â chost hyfforddiant (bwrsari i dalu'r ffi hyfforddiant a grant i dalu cost cyflenwi).
- Gwell gwybodaeth ar ba hyfforddiant i athrawon sgiliau sylfaenol sydd ar gael.

150. Fodd bynnag, mae arferion rheoli da a pheth cefnogaeth a chymorth pellach gyda hyfforddiant staff yn ffactorau a allai wneud dim byd mwy na chynnal gwasanaeth sgiliau sylfaenol sy'n perfformio fel ag y mae ar hyn o bryd; hynny yw, un sy'n cynnig hyfforddiant a werthfawrogir gan y rheiny sy'n ei dderbyn ond sy'n gofyn am weithredu ar y pryd a'r gallu i addasu yn gyson ar ran y timau sgiliau sylfaenol er mwyn gweithio o gwmpas yr anawsterau a'r problemau, y mae un o'r mwyaf ohonynt yw cynnal gweithlu sefydlog, sy'n codi.

151. Yn y tymor hwy, mae rhai darparwyr yn awgrymu mai ail-leoli sylweddol y swyddogaeth sgiliau sylfaenol yw'r allwedd wirioneddol i ddatrys y mater capasiti addysgu ac ymestyn y ddarpariaeth y tu hwnt i'w therfynau presennol. Yr hyn sydd ei angen, yn ôl y rhai sy'n cefnogi'r ddadl, yw'r canlynol:

- Un, creu patrwm cyllido sefydlog lle mae lefel hysbys o gyllid, wedi'i gydlynu ar draws ei amrywiol ffynonellau, sy'n gyfrannol i anghenion ardal, ac yn ddigonol i adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae polisi cenedlaethol mae'n debyg yn ei briodoli i'r mater sgiliau sylfaenol, yn cael ei gwarantu am gyfnod penodol.
- Dau, datblygu cyflwyno partneriaeth a reolir yn ganolog ym mhob ardal leol, gydag un corff arweiniol lleol yn cymryd cyfrifoldeb dros ddyrannu a threfnu adnoddau'n strategol yn lleol, er mwyn osgoi dyblygu a chystadleuaeth wastraffus.

152. O dan yr amgylchiadau hyn yn unig, fe awgrymir, y gall addysgu sgiliau sylfaenol symud mewn gwirionedd tuag at y 'proffesiynoleiddio' a geisir. Gyda chyllid sefydlog a rôl wedi'i gwarantu, fe ddadleuir, byddai gan y gweithlu mwy o gymhelliant i ddilyn lefelau cymwysterau uwch, gellir rhoi contractau llawn amser a pharhaol i fwy o staff, a byddai pobl iau yn cael eu denu gan addysgu sgiliau sylfaenol. Byddai cymhlethdod yn cael ei leihau a byddai newid yn digwydd yn llai aml. Byddai'r swyddogaeth sgiliau sylfaenol yn peidio â bod yn wasanaeth 'Sinderela' sy'n gofyn am ymateb cyson i argyfwng, ond yn rhan o fframweithiau addysg ôl-16 ac addysg oedolion safonol sy'n ennyn parch ehangach.

# ATODIAD 1: Arweiniad ar y drafodaeth gyda darparwyr

1. Cadarnhau enw a swyddogaeth y sefydliad; cadarnhau enw a theitl swydd y person sy'n cael ei gyfweld.

2. Gwirio a yw wedi darllen y ddogfen a anfonwyd allan ac yn deall pwrpas y cyfweliad. Eglurwch yn ôl yr angen.

3. Gwiriwch yr amser sydd ar gael ar gyfer y cyfweliad er mwyn rheoli cyflymder y cyfweliad.

4. Arweiniwch i mewn i'r mater capasiti sgiliau sylfaenol drwy ofyn i'r ymatebydd ddisgrifio *swm a swyddogaeth bresennol addysgu sgiliau sylfaenol* yn y sefydliad.

    - Addysgu sgiliau sylfaenol 'pur': hynny yw, cyrsiau llythrennedd, rhifedd ac ESOL wedi'u haddysgu fel cyrsiau annibynnol ar gyfer pobl 16-18 oed neu oedolion 19+.

    - Cyrsiau sgiliau sylfaenol 'wedi'u hymgorffori': hynny yw, sgiliau llythrennedd, rhifedd ac ESOL wedi'u haddysgu fel rhan o becyn sgiliau allweddol ehangach neu ar y cyd â chwrs(cyrsiau) galwedigaethol i bobl 16-18 oed neu oedolion 19+.

    - Gofynnwch am ddisgrifiad o bwy sy'n cyflenwi addysgu sgiliau sylfaenol:

        - Athrawon sgiliau sylfaenol penodedig (Sawl un? Pa gymwysterau sgiliau sylfaenol? Faint o oriau? Pa hyd yw'r contractau? Sut gânt eu hariannu?)

        - Y rheiny sy'n addysgu sgiliau sylfaenol er eu bod wedi'u cyflogi yn bennaf i addysgu pynciau eraill (Sawl un? Pa gymwysterau sgiliau sylfaenol? Pa oriau/cyfran o waith a dreulir ar addysgu sgiliau sylfaenol?)

5. Trowch at y mater o *gapasiti addysgu sgiliau sylfaenol*:

    - A oes gan y sefydliad unrhyw ddiffygion o ran capasiti addysgu sgiliau sylfaenol?

    - Beth yw natur a graddau'r rhain? Gwiriwch ar gyfer:

        - Gwahaniaethau mewn llythrennedd/rhifedd/ESOL

        - Diffygion o ran cymwysterau/pa gymwysterau sydd ar goll?

        - Diffygion o ran profiad athrawon

        - Niferoedd athrawon ychwanegol/oriau addysgu sydd eu hangen i gyrraedd lefel ddigonol

        - Ers faint mae problemau wedi bodoli?/A ydynt yn gyson neu'n amrywio?

    - Beth yw effaith y diffygion? Gwiriwch ar gyfer:

- Darpariaeth wedi'i ganslo neu oedi
- Ansawdd o safon annerbyniol
- Myfyrwyr yn methu â chwrdd â lefelau gofynnol
- Anfodlonrwydd dysgwyr
- Arall

6. Trowch ar y *rhesymau* dros y diffygion. Edrychwch am anawsterau posib:

   - Problemau wrth farnu'r galw am ddysgu sgiliau sylfaenol?
   - Rhy ychydig o athrawon sgiliau sylfaenol cymwys/profiadol yn yr ardal?
   - Tâl/oriau/contractau gwael yn cael eu cynnig?
   - Anawsterau recriwtio a chadw?
   - Cystadleuaeth rhwng darparwyr?
   - Diffyg cyfleoedd hyfforddiant/datblygiad proffesiynol mewn addysgu sgiliau sylfaenol?
   - Anhawster wrth gyrchu cyfleoedd o'r fath – costau, cyllid, amser y cyrsiau, pellter, amharodrwydd athrawon, ac ati?
   - Rhesymau eraill?

7. Beth fyddai'n cynorthwyo wrth *fynd i'r afael â diffygion*? Gofynnwch i'r ymatebydd ystyried a gwerthuso:

   - I ba raddau y mae angen, ac y gellid, datblygu strwythur gyrfa proffesiynol ar gyfer addysgu sgiliau sylfaenol.
   - Y defnydd o raglen farchnata i ddenu mwy o/gwell athrawon sgiliau sylfaenol.
   - Bwrsarïau i dalu cost hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol parhaus i athrawon sgiliau sylfaenol.
   - Cymorthdaliadau i ddarparwyr i wneud yn iawn am yr amser y mae athrawon sgiliau sylfaenol yn ei gymryd i ffwrdd i hyfforddi.
   - Rhaglenni mentora /rhaglenni lleoliadau i helpu athrawon sgiliau sylfaenol newydd ar gamau cynnar eu gyrfa addysgu sgiliau sylfaenol.
   - Cyllid mwy sefydlog neu hirdymor i gefnogi hyfforddiant i athrawon sgiliau sylfaenol.
   - Cynyddu argaeledd cyrsiau hyfforddi i athrawon sgiliau sylfaenol.

8. Gofynnwch i ymatebwyr nodi a disgrifio unrhyw ddatblygiadau neu arferion penodol y maent yn eu trefnu neu'n cymryd rhan ynddynt (fel rhan o bartneriaeth) sydd wedi gwella neu y byddant yn gwella eu capasiti addysgu sgiliau sylfaenol.

9. Unrhyw ffactorau/faterion eraill y mae'r ymatebydd yn dymuno eu codi?

# ATODIAD 2: Holiadur Dysgwyr Sgiliau Sylfaenol

**MAWRTH/EBRILL 2007**

---

Enw'r ymatebydd: ………………………………. Rhif ffôn. …………………………..

Dyddiad y cyfweliad: ……………………….…… Amser y cyfweliad: ………am/pm

Enw'r person yn cyfweld: …………………………………………………………………...

---

**Cyflwyniad**

**Sefydlu cysylltiad ag unigolyn a enwyd**

Bore/prynhawn/noswaith dda. Fy enw i yw ………… Rwy'n gyfwelydd ymchwil yn gweithio i BMG Research. Gofynnwyd i BMG gan yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sy'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru, i ymgymryd ag arolwg o bobl sydd wedi dilyn cwrs yn ddiweddar mewn Saesneg neu fathemateg i weld pa mor effeithiol yw cyrsiau o'r fath. Mae cronfa ddata genedlaethol o fyfyrwyr cofrestredig yn awgrymu eich bod chi wedi dilyn cwrs (neu gyrsiau) y llynedd mewn Saesneg neu fathemateg a rhifyddeg.

Defnyddiwch y gronfa ddata i annog yr ymatebydd yn ôl yr angen. Gaf i ofyn ychydig o gwestiynau i chi am y cwrs hwn/cyrsiau hyn?

*Gallwch eu sicrhau yn ôl yr angen:*

- Bydd yn cymryd ychydig funudau yn unig.
- Mae eich atebion yn gwbl gyfrinachol a ni fydd modd eich adnabod.
- Mae BMG Research yn gwmni ymchwil i'r farchnad cydnabyddedig a leolir yn Birmingham.
- Mae hwn yn ymchwil gwirioneddol; nid ydym yn ceisio gwerthu unrhyw beth i chi.

---

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C1** Yn gyntaf, gaf i ofyn a oedd y cwrs (neu gyrsiau) a ddilynwyd gennych i fod i helpu eich sgiliau mewn? **Darllenwch yn uchel, codiwch bob un sy'n berthnasol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgrifennu Saesneg | 1 | | |
| Darllen Saesneg | 2 | | |
| Saesneg Llafar | 3 | | |
| Mathemateg neu rifyddeg | 4 | | |
| Arall (ysgrifennwch) | 5 | | |
| Dim o'r rhain | 6 | → | Dewch â'r cyfweliad i ben |

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C2** Ble cynhaliwyd y cwrs(cyrsiau)? **Awgrymwch yn ôl yr angen - codiwch bob un sy'n gymwys**

| | |
|---|---|
| Yn eiddo eich cyflogwr | 1 |
| Yn eiddo cwmni hyfforddi preifat | 2 |
| Mewn Coleg Addysg Bellach | 3 |
| Mewn canolfan ddysgu leol | 4 |
| Neu rhywle arall (ysgrifennwch) | 5 |

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C3** Beth anogodd chi i fynd ar y cwrs(cyrsiau) i wella eich sgiliau mewn Saesneg/mathemateg a rhifyddeg (fel y bo'n briodol)? **Ai un o'r canlynol? Darllenwch yn uchel, codiwch bob un sy'n berthnasol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Roedd eich cyflogwr am y chi ei wneud e | 1 | → | C4 |
| Roeddech yn astudio pwnc arall a dilynwyd y cwrs(cyrsiau) Saesneg/mathemateg ochr yn ochr â'r astudiaeth arall | 2 | → | C6 |
| Anogodd eich darparwr hyfforddiant chi i'w wneud e | 3 | → | C6 |
| Roeddech am wella eich Saesneg/mathemateg ac aethoch i edrych am gwrs addas | 4 | → | C4 |
| Gwelsoch hysbyseb am bobl oedd y dymuno gwella eu Saesneg/mathemateg ac fe wnaeth hynny eich annog i ymateb | 5 | → | C4 |
| | 6 | → | C6 |
| Neu rywbeth arall? (Ysgrifennwch) | | | |

**C4** Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i ddod o hyd i gwrs (cyrsiau) addas yn eich ardal? **Awgrymwch yn ôl yr angen; codiwch un**

| | | |
|---|---|---|
| Anodd iawn | 1 | |
| Eithaf anodd | 2 | C5 |
| Eithaf hawdd | 3 | |
| Hawdd iawn | 4 | C6 |
| Ddim yn gwybod | 5 | |

**C5** A allwch ddisgrifio pam ei fod yn anodd dod o hyd i gwrs (cyrsiau) addas? **Nodwch**

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C6** A oedd rhaid i chi aros i'r cwrs(cyrsiau) Saesneg/mathemateg ddechrau neu a oedd ar gael pan oeddech yn dymuno iddo ddechrau, neu'n disgwyl iddo ddechrau? **Codiwch un**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Roedd yn rhaid aros | 1 | → | C7 a C8 |
| Ar gael ar amser | 2 | | |
| Arall (ysgrifennwch). | 3 | | C9 |

**C7** Am sawl wythnos oedd yn rhaid i chi aros? Nodwch nifer yr wythnosau

Arhosais am ☐ wythnos

**C8** A ydych yn gwybod pam yr oedd oedi? **Nodwch unrhyw esboniad**

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C9** Yn ystod eich cwrs(cyrsiau) Saesneg/mathemateg, beth oedd nifer nodweddiadol neu gyfartalog y bobl yn y dosbarth? **Ysgrifennwch nifer(oedd) priodol i'r pynciau a astudiwyd**

Saesneg ☐

Mathemateg ☐

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C10** A wnaeth y nifer hwn ganiatáu i chi gael swm y sylw personol oedd ei angen arnoch? **Codiwch un**

| | |
|---|---|
| Do | 1 |
| Naddo | 2 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C11** Ar y cwrs(cyrsiau) a ddilynwyd gennych, a wnaeth yr athrawon aros yr un peth drwy gydol y cwrs(cyrsiau) neu a wnaeth yr athro(athrawon) newid ar ryw bwynt? **Codiwch un**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arhosodd yr athro(athrawon) yn un peth | 1 | → | C13 |
| Newidiodd yr athro(athrawon) | 2 | → | C12 |

**C12** A oedd newid athro(athrawon) yn broblem o ran amharu ar lif yr hyn yr oeddech yn ei ddysgu, neu a na wnaeth unrhyw wahaniaeth? **Codiwch un**

| | |
|---|---|
| Problem fawr | 1 |
| Problem fach | 2 |
| Ddim yn broblem | 3 |
| Ddim yn gwybod | 4 |

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C13** Yn gyffredinol, beth oedd eich barn am ansawdd gyffredinol yr addysgu ar y cwrs(cyrsiau) Saesneg/mathemateg a ddilynwyd gennych? **Awgrymwch; codiwch un**

| | |
|---|---|
| Da iawn | 1 |
| Eithaf da | 2 |
| Gweddol – ddim yn dda na'n wael | 3 |
| Eithaf gwael | 4 |
| Gwael iawn | 5 |
| Ddim yn gwybod | 6 |

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C14** Sut byddech yn graddio eich tiwtor(iaid) ar gyfer eich cwrs Saesneg/mathemateg ar yr agweddau canlynol. **Sgoriwch ar raddfa o 1 i 10, lle 1 = gwael a 10 = ardderchog. Darllenwch bob un; newidiwch y drefn; sgoriwch 1 i 10 ar gyfer pob un**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y gallu i egluro'r pwnc | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dd/g |
| Gwrando ar eich anghenion | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dd/g |
| Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n llawn mwynhad i chi | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dd/g |
| Eich deall chi a sut yr ydych yn hoffi dysgu | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dd/g |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y gefnogaeth a gawsoch ganddynt, er enghraifft mewn gwella eich technegau dysgu neu reoli amser | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dd/g |
| Gwneud defnydd da o amser yn y sesiynau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dd/g |
| Ansawdd ac argaeledd y deunyddiau addysgu a roddwyd i chi | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dd/g |
| Gosod targedau neu nodau dysgu clir i'ch helpu i wella | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dd/g |
| Darparu adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dd/g |

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C15** Ar y cyfan, beth oedd eich barn am y deunyddiau dysgu a ddefnyddiwyd ar y cwrs(cyrsiau) Saesneg/mathemateg – pethau fel gwerslyfrau, taflenni neu daflenni gwaith? **Awgrymwch; codiwch un**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Da iawn | 1 | | |
| Eithaf da | 2 | | C17 |
| Gweddol – ddim yn dda neu'n wael | 3 | | |
| Eithaf gwael | 4 | | C16 |
| Gwael iawn | 5 | | |
| Ddim yn gwybod | 6 | → | C17 |

**C16** A allwch ddweud sut neu pam yr oeddent yn wael? **Nodwch**

GOFYNNWCH BOB UN

**C17** A wnaethoch gwblhau'r cwrs(cyrsiau) yn gyfan gwbl neu a wnaethoch adael yn gynnar am ryw reswm?
**Codiwch un**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwblhawyd | 1 | → | C19 |
| Gadael yn gynnar | 2 | → | C18 |

**C18** Pam na wnaethoch gwblhau'r cwrs (cyrsiau)? **Darllenwch hwy allan a chodio pob un sy'n gymwys**

| | |
|---|---|
| Colli diddordeb | 1 |
| Y cwrs yn rhy anodd | 2 |
| Gwastraff amser | 3 |
| Nid oedd y cwrs yr hyn yr oeddwn yn ei ddisgwyl | 4 |
| Ddim yn hoffi'r athro(athrawon) | 5 |
| Y teithio yn rhy anodd | 6 |
| Diddymwyd y cwrs | 7 |
| Wedi cael swydd/swydd newydd | 8 |
| Amgylchiadau personol wedi newid | 9 |
| Arall (nodwch) | 10 |
| Ddim yn gwybod | 11 |

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C19** Ar y cyfan, pa mor dda yr ydych yn credu y rheolwyd y materion canlynol yn eich coleg neu ddarparwr dysgu? **Sgoriwch ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 = gwael a 10 = ardderchog.** ***Os bydd angen:*** **Rydym yn deall y gall sgoriau amrywio dros amser - ceisiwch eich gorau i roi gradd gyffredinol i ni. Darllenwch bob un; newidiwch y drefn; sgoriwch 1 i 10 i bob un.**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod digon o diwtoriaid ar gael | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | DK |
| Darparu cefnogaeth pan oedd problemau gennych chi neu ddysgwyr eraill | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | DK |
| Helpu pobl newydd i ymgartrefu | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | DK |
| Rheoli amserlenni fel eu bod yn gweddu i anghenion y dysgwr cyn belled ag y bo'n bosib | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | DK |
| Cyfathrebu newidiadau o ran amseroedd gwersi | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | DK |

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C20** A gawsoch unrhyw gymhwyster neu dystysgrif ysgrifenedig o ganlyniad i ddilyn y cwrs(cyrsiau) Saesneg/mathemateg? **Codiwch un**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Do | 1 | → | C21 |
| Naddo | 2 | | |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 3 | C22 |

**C21** Beth oedd y cymhwyster/cymwysterau hwnnw/hynny? A ydych yn gwybod pa radd neu lefel? **Nodwch**

| Enw'r cymhwyster | Lefel/gradd |
|---|---|
| (1) …………………………………… | ………….. |
| (2) …………………………………… | ………….. |
| (3) …………………………………… | …………... |

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C22** A fyddech yn dweud eich bod wedi cael unrhyw rai o'r manteision canlynol o'r cwrs(cyrsiau) Saesneg/mathemateg a ddilynwyd gennych? **Darllenwch yn uchel; codiwch 'Do' neu 'Naddo' neu 'Ddim yn gwybod' ar gyfer pob un**

| | Do | Naddo | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Yn fwy abl i ymgymryd â rhai tasgau sy'n gofyn am sgiliau Saesneg/mathemateg | 1 | 2 | 3 |
| Yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio Saesneg/Mathemateg | 1 | 2 | 3 |
| Wedi mwynhau cwrdd â phobl ac agweddau cymdeithasol astudio ar y cwrs(cyrsiau) | 1 | 2 | 3 |
| Yn gallu astudio pynciau eraill yn well o ganlyniad | 1 | 2 | 3 |
| Bydd yn helpu gydag unrhyw astudio pellach efallai y byddaf am ei wneud yn y dyfodol | 1 | 2 | 3 |
| Wedi fy helpu yn fy swydd bresennol | 1 | 2 | 3 |
| Wedi fy helpu i gael swydd/ swydd well | 1 | 2 | 3 |
| Bydd yn fy helpu i gael swydd yn y dyfodol | 1 | 2 | 3 |

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C23** A oes unrhyw fanteision eraill o ddilyn o cwrs(cyrsiau) Saesneg/mathemateg yr oeddech wedi'i astudio

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes | 1 | → | C24 |
| Nac oes | 2 | | |
| Ddim yn gwybod | 3 | | C25 |

**C24** Beth yw'r fantais(manteision)? Nodwch

**GOFYNNWCH BOB UN**

**C25** Yn olaf, a allwch roi crynodeb cyffredinol i mi o werth y cwrs(cyrsiau) Saesneg/mathemateg a ddilynwyd gennych? Pa un o'r canlynol sydd agosach at eich barn? **Darllenwch bob un yn uchel; codiwch un**

| | |
|---|---|
| Mae'r cwrs (cyrsiau) wedi bod yn help mawr i mi ac rwy'n gosod gwerth mawr ar y profiad | 1 |
| Roedd y cwrs(cyrsiau) yn eithaf defnyddiol ac ar y cyfan rwy'n falch fy mod wedi cymryd rhan | 2 |
| Roedd y cwrs(cyrsiau) yn iawn ond nid ydynt wedi gwneud llawer o wahaniaeth i mi | 3 |
| Roedd y cwrs(cyrsiau) yn wastraff amser ac ni wnaethant gyflawni unrhyw beth | 4 |
| Rhywbeth arall (Nodwch) | 5 |

**DIOLCH A DOD I BEN**